# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4, Tŷ Hywel, a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Medi 2023

Amser: 13.05

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

(13.05)

## 2 Sesiwn graffu ar waith y Prif Weinidog

(13.05 - 14.30) (Tudalennau 1 - 29)

Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-24-23 - Papur 1 - Nodyn briffio [Saesneg yn unig]

LJC(6)-24-23 - Papur 2 - Llythyr gan y Prif Weinidog, 19 Ebrill 2023

LJC(6)-24-23 - Papur 3 - Llythyr at y Prif Weinidog, 11 Ebrill 2023

**Egwyl**

(14.30 - 14.35)

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

(14.35 - 14.40)

### 3.1 SL(6)299 - Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022

(Tudalennau 30 - 33)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-24-23 - Papur 4 - Adroddiad

LJC(6)-24-23 - Papur 5 - Ymateb Llywodraeth Cymru

LJC(6)-24-23 - Papur 6 - Ymateb pellach Llywodraeth Cymru

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(14.40 - 14.45)

**4.1 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE**

(Tudalennau 34 - 37)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-24-23 - Papur 7 - Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, 11 Medi 2023

LJC(6)-24-23 - Papur 8 - Llythyr gan Weinidog yr Economi, 11 Medi 2023

**4.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) 2023**

(Tudalennau 38 - 39)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-24-23 - Papur 9 - Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 13 Medi 2023

**4.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd**

(Tudalen 40)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-24-23 - Papur 10 - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 13 Medi 2023

## 5 Papurau i'w nodi

(14.45 - 14.50)

**5.1 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Amgylchedd Bwyd Iach**

(Tudalennau 41 - 48)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-24-23 – Papur 11 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 11 Medi 2023

LJC(6)-24-23 – Papur 12 – Llythyr at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 7 Gorffennaf 2023

**5.2 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)**

(Tudalennau 49 – 55)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-24-23 – Papur 13 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 12 Medi 2023

LJC(6)-24-23 – Papur 14 – Llythyr i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 14 Gorffennaf 2023

**5.3 Gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Addysg Ddewisol yn y Cartref**

(Tudalennau 56 – 80)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-24-23 – Papur 15 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Medi 2023

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.50)

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio

(14.50 – 15.10) (Tudalennau 81 – 102)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-24-23 – Papur 16 – Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-24-23 – Papur 17 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 16 Awst 2023

## 8 Gweithdrefnau sydd eu hangen er mwyn craffu ar reoliadau sy'n deillio o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

(15.10 - 15.25) (Tudalennau 103 - 132)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-24-23 – Papur 18 – Llythyr gan y Pwyllgor Busnes, 14 Medi 2023

LJC(6)-24-23 – Papur 19 – Nodyn Cyngor

LJC(6)-24-23 - Papur 20 - Ymateb drafft [Saesneg yn unig]

## 9 Blaenraglen Waith

(15.25 - 15.35) (Tudalennau 133 - 136)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-24-23 - Papur 21 - Blaenraglen waith [Saesneg yn unig]

## 10 Trafodaeth y Pwyllgor ar Filiau Cydgrynhoi

(15.35 - 15.50) (Tudalennau 137 - 141)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-24-23 - Papur 22 - Nodyn briffio [Saesneg yn unig]

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

19 Ebrill 2023

Annwyl Huw

Diolch am eich llythyr. Mewn egwyddor, rwy'n cytuno i ddod i gyfarfod eich pwyllgor yn unol â'ch cais ac yn amodol ar yr ystyriaethau canlynol.

Fel y gwyddoch, rwy'n mynychu'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog bob tymor i gymryd cwestiynau sy'n ymwneud â holl amrediad gwaith y Llywodraeth. Mae hyn, wrth gwrs, yn ychwanegol at fy nyletswyddau wythnosol yn y Senedd. Ein polisi hirsefydlog yw na ddylai'r Prif Weinidog fel arfer fynychu pwyllgorau sy'n craffu ar waith portffolios y mae gweinidogion unigol yn atebol amdano ar ran Llywodraeth Cymru.

Rwy'n cydnabod bod y materion yr ydych chi'n cyfeirio atynt – y Rhaglen Ddeddfwriaethol, Cysylltiadau Rhyngwladol ac Ewrop – yn faterion y mae gennyf i, fel y Prif Weinidog, gyfrifoldebau penodol a strategol drostynt. Byddwn, felly, yn fodlon dod i gyfarfod eich pwyllgor i gymryd cwestiynau ar y pynciau hyn. I fod yn glir, ac yn unol â'r polisi a ddisgrifir uchod, ni fyddwn yn fodlon cymryd cwestiynau ar, er enghraifft, y portffolio Cyfiawnder sydd ag atebolrwydd gweinidogol yn y ffordd arferol.

Os ydych yn fodlon bwrw ymlaen ar y sail hon, byddwn yn hapus i'n swyddfeydd wneud y trefniadau angenrheidiol.

Yn gywir

Mark Drakeford

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

11 Ebrill 2023

Annwyl Mark,

Gwahoddiad i roi tystiolaeth - 18 Medi 2023

Fel yr ydych yn ddiau yn gwybod, mae cylch gwaith craffu fy Mhwyllgor yn cynnwys llawer o'ch cyfrifoldebau fel Prif Weinidog, gan gynnwys cysylltiadau rhynglywodraethol, y Rhaglen Ddeddfwriaethol, cysylltiadau rhyngwladol a chysylltiadau ag Ewrop.

Wrth inni agosáu at ganol y Chweched Senedd, hoffwn eich gwahodd i gyfarfod y Pwyllgor ar 18 Medi inni drafod y materion hyn yn fanwl â chi. Rwy'n rhagweld y bydd y sesiwn dystiolaeth yn cael ei chynnal rhwng 13:00 a 14:30, mewn ystafell bwyllgora ar ystâd y Senedd.

Rhowch wybod i mi cyn gynted â phosibl a fyddwch chi'n gallu cymryd rhan; os yw ymrwymiadau blaenorol yn eich atal rhag cymryd rhan ar y dyddiad hwn, cysylltwch â chlercod y pwyllgor i drafod dyddiadau eraill.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

# SL(6)299 – Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau") yn diwygio Erthygl 6 o Benderfyniad y Cyngor 2003/17/EC dyddiedig 16 Rhagfyr 2002 ar gywerthedd archwiliadau maes a gynhelir mewn trydydd gwledydd ar gnydau sy'n cynhyrchu hadau ac ar gywerthedd hadau a gynhyrchir mewn trydydd gwledydd. Mae'r Rheoliadau yn estyn dyddiad dod i ben y Penderfyniad hwn o 31 Rhagfyr 2022 i 31 Rhagfyr 2029.

Roedd y cynnig i ymestyn Penderfyniad y Cyngor yn ddarostyngedig i gyfnod o chwe wythnos o ymgysylltu anffurfiol â rhanddeiliaid. Gwnaed hyn ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(ii) - yr ymddengys ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl o'r pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud oddi tano;**

Yn y rhaglith, mae angen eglurhad ynghylch a yw'r pwerau a ddefnyddiwyd yn gywir. Mae'r offerynnau cyfatebol ar gyfer Lloegr a'r Alban ond yn cyfeirio at "section 16 **(1) and (1A)**" yn lle "section 16**(1) to (4)**". Nid yw'n glir a ddefnyddir y pwerau yn is-adrannau (2) i (4) yn yr offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Yn y Nodiadau Esboniadol, nid oes unrhyw baragraff yn nodi pa un a yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn bodoli ai peidio, neu lle y gellir dod o hyd iddo. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn bodoli ond nid yw hyn yn cael ei esbonio yn y Rheoliadau.

3. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gwneir y pwyntiau a ganlyn ynghylch termau a ddefnyddir yn y testun Cymraeg ar gyfer "equivalence" a "field inspections".

a. Defnyddir "Cywerthedd" yn y cyfieithiad am y gair "equivalence" yn y testun Cymraeg. Mae'r ffurf hon yn ymddangos yng Ngeiriadur yr Academi Gymreig fel sillafiad posibl o'r enw hwn, a cheir rhai enghreifftiau mewn offerynnau statudol diweddar. Ond mae Uned Cyfieithu Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn dilyn Geiriadur Prifysgol Cymru yn bennaf ac yn nodi "cy**f**werthedd" fel y sillafiad safonol ar gyfer yr enw hwn. At hynny, ni chyfeirir at "cywerthedd" ar wefan BydTermCymru, ond defnyddir "cyfwerthedd" yn hytrach am yr enw hwn. Mae'n ymddangos, felly, nad yw'r cyfieithiad wedi defnyddio canllawiau cyfieithu Llywodraeth Cymru trwy ddefnyddio "cywerthedd" yn hytrach na "cyfwerthedd" yn y Rheoliadau hyn.
b. Yn y Rheoliadau hyn, yn y testun Cymraeg, defnyddir "archwiliadau maes" fel y cyfieithiad ar gyfer "field inspections". Ond ymddengys fod rhywfaint o amrywiaeth rhwng "archwiliadau maes" ac "arolygiadau maes" yng nghyfieithiad yr offerynnau statudol. Mae'n ymddangos mai "arolygu" yw'r term safonol ar gyfer "inspection" yn Nherminoleg Ddeddfwriaethol yr Uned Cyfieithu Deddfwriaethol, ac mae angen gwahaniaethu ar adegau rhwng "examine" ac "inspect".

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt adrodd technegol, a'r ddau bwynt rhinweddau.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 9 Ionawr 2023 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022**

**Pwynt Craffu Technegol 1**:

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y darpariaethau perthnasol. Nid yw o'r farn bod y cyfeiriad at adrannau 16(2) i 16(4) yn effeithio ar vires y rheoliadau. Fodd bynnag, wedi meddwl, mae'r pwerau o dan adran 16(1) ac 16(1A) ar gyfer gwneud darpariaeth i reoleiddio'r broses o fewnforio hadau yn ddigon eang i gwmpasu estyniad Penderfyniad y Cyngor 2003/17/EC dyddiedig 16 Rhagfyr 2002.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2**:

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn bodoli fel y'i nodir yn y Memorandwm Esboniadol ac mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am dynnu ein sylw at y pwynt hwn.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 3a**:

O ran y defnydd o "cywerthedd" am "equivalence", defnyddiwyd y term hwn er mwyn sicrhau cysondeb â rheoliadau blaenorol yn yr un maes. Fe'i defnyddiwyd yn Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 ac mewn OSau diwygio dilynol. Fodd bynnag, wedi ystyried y mater ymhellach, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno, er hygyrchedd, y byddai'n well defnyddio'r term "cyfwerthedd", oni bai bod OSau sy'n defnyddio "cywerthedd" yn cael eu dyfynnu.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 3b**:

Mewn perthynas â'r defnydd o'r term "archwiliadau maes", mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod anghysondeb wedi bod mewn rheoliadau blaenorol, a defnyddir "arolygiadau maes" yn y dyfodol.

O ran Pwynt Craffu Technegol 1 a Phwynt Craffu ar Rinweddau 2, bydd OS diwygio sy'n gwneud cywiriadau yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl.

**Ymateb y Llywodraeth:** ***Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022***

Ysgrifennaf atoch parthed adroddiad y Pwyllgor SL(6)299 ar Reoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau"). Nododd Ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hwnnw y byddai O.S. diwygio yn cael ei wneud.

**Pwynt Craffu Technegol 1**:

Fel y'i nodir yn Ymateb y Llywodraeth, nid yw'r adran a enwir ym Mhwynt Craffu Technegol 1 yn effeithio ar vires y Rheoliadau. Er bod y pwerau o dan adran 16(1) ac 16(1A) yn ddigon eang i ddarparu ar gyfer estyn Penderfyniad y Cyngor 2003/17/EC dyddiedig 16 Rhagfyr 2002, nid yw'r cyfeiriad ehangach at is-adrannau (2) i (4) yn y pwerau galluogi yn effeithio ar vires y Rheoliadau. Deddfwriaeth ddiwygio yw'r Rheoliadau ac mae bwriad y Rheoliadau wedi cael ei weithredu. Mae'r diwygiadau gofynnol wedi eu gwneud ac felly mae'r darpariaethau wedi eu disbyddu. Nid oedd llawer o amser ar gael i lunio'r ymateb i'r Pwyllgor, ac yn sgil y parodrwydd i fod o gymorth, nododd yr ymateb y byddai O.S. diwygio yn cael ei wneud. Fodd bynnag, ar ôl myfyrio ar y mater o safbwynt cyfreithiol mwy ystyriol, mae Llywodraeth Cymru o'r farn na fyddai'n gywir gwneud O.S. diwygio o dan yr amgylchiadau hyn gan fod y pŵer cychwyn eisoes wedi ei arfer.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:**

Mewn cysylltiad â Phwynt Craffu ar Rinweddau 2 mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'n glir lle y gellir dod o hyd i Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac nid yw'r Nodiadau Esboniadol eu hunain yn rhan o'r O.S.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE** |
| **DYDDIAD** | **11 Medi 2023** |
| **GAN** | **Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi** |

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, rwy'n rhoi gwybod i'r Aelodau fy mod wedi mynychu cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar 26 Mehefin. Nid oeddwn yn gallu rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r cyfarfod gan ei fod wedi cael ei alw ar fyr rybudd gan Lywodraeth y DU.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Leo Docherty AS, Gweinidog Llywodraeth y DU dros Ewrop yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu. Roedd Angus Robertson ASA, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban dros y Cyfansoddiad, Materion Allanol a Diwylliant hefyd yn bresennol yn y cyfarfod. Roedd uwch swyddog o Wasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon yn bresennol fel arsylwr.

Cynhaliwyd y cyfarfod i baratoi ar gyfer cyfarfodydd dilynol rhwng y DU a'r UE o Gyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf, pan nad oeddwn yn bresennol.

Fe wnes i'r prif bwyntiau canlynol yng nghyfarfod mis Mehefin, a gafodd eu nodi:

- dylid rhoi mwy o rybudd ar gyfer cyfarfodydd y grŵp Rhyngweinidogol hwn, yn unol â thelerau'r Adolygiad Rhynglywodraethol.
- roedd ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar faterion rhoi Fframwaith Windsor ar waith yn parhau.
- y gobaith yw y bydd cynnydd gyda'r UE ar Fframwaith Windsor yn datrys materion allweddol fel cysylltiad y DU â Horizon Europe.
- o ran hawliau dinasyddion, byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu ymgysylltiad cynharach, a mwy sylweddol, gan y Swyddfa Gartref.

Mabwysiadodd cyfarfod y Cyd-bwyllgor dilynol ddau benderfyniad ffurfiol ar fesurau glanweithiol a ffytoiechydol (bwydydd amaeth) a meddyginiaethau i roi Fframwaith Windsor ar waith. Mabwysiadodd benderfyniad hefyd i addasu agweddau ar gydlynu mecanweithiau nawdd cymdeithasol. Mae'r manylion wedi'u nodi yn y Datganiad ar y Cyd rhwng y DU a'r UE

yma: Joint statement on the Withdrawal Agreement Joint Committee meeting, 3 July 2023 (Saesneg yn Unig)

Mae cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadaurhwng y DU a'r UE wedi'i drefnu ar gyfer 11 Medi, a fydd yn cael ei gadeirio gan Leo Docherty AS, Gweinidog Llywodraeth y DU dros Ewrop yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu. Nid oes agenda ffurfiol wedi'i gosod eto, ond rwy'n disgwyl iddi gynnwys trafodaeth ar weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r Cytundeb Ymadael, cyn cyfres o wahanol gyfarfodydd rhwng y DU a'r UE a fydd yn cael eu trefnu ar gyfer gweddill 2023.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref VG/00303/23

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.cymru

11 Medi 2023

Annwyl Huw

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, roeddwn am roi gwybod ichi fy mod wedi mynychu cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE ar 26 Mehefin. Nid oeddwn yn gallu rhoi rhybudd ymlaen llaw ar yr achlysur hwn gan fod y cyfarfod wedi cael ei alw ar fyr rybudd gan Lywodraeth y DU.

Cynhaliwyd y cyfarfod i baratoi ar gyfer cyfarfodydd dilynol y DU a'r UE o Gyd-bwyllgor y Cytundeb Ymadael a gynhaliwyd yn fuan wedyn ar 3 Gorffennaf, pan nad oeddwn yn bresennol.

Amlinellir crynodeb o'r trafodaethau mewn Datganiad Ysgrifenedig yr wyf wedi'i gyhoeddi i'r Aelodau heddiw. written statement

Mae cyfarfod nesaf y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y DU a'r UE wedi'i drefnu ar gyfer 11 Medi, a fydd yn cael ei gadeirio gan Leo Docherty AS, Gweinidog Llywodraeth y DU dros Ewrop yn y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, ac i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

CC:

Delyth Jewell, AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Mick Antoniw, AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.wales

13 Medi 2023

Annwyl Huw,

**Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) 2023**

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i roi fy nghydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) 2023.

Derbyniais lythyr gan Weinidog Ansawdd a Chadernid Amgylcheddol y DU, Rebecca Pow ar 10 Awst 2023 yn gofyn am fy nghydsyniad ffurfiol i Reoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygiadau Amrywiol) 2023. Mae'r Rheoliadau'n gorgyffwrdd â pholisi datganoledig ac yn effeithio ar Gymru. Bydd y Rheoliad yn cwmpasu Cymru, Lloegr a'r Alban ac mae cais tebyg wedi'i anfon at Weinidogion yr Alban am eu cydsyniad.

Mae'r Rheoliadau'n defnyddio pwerau a roddir gan adrannau 14 (2) ac 20 (1) o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) 2023. Mae adran 14(2) yn darparu y caiff awdurdod cenedlaethol perthnasol drwy reoliadau ddirymu unrhyw gyfraith UE eilaidd a ddargedwir a'i disodli â darpariaeth y mae'r awdurdod cenedlaethol perthnasol yn ystyried ei bod yn briodol i gyflawni'r un amcanion neu amcanion tebyg. Mae adran 20(1) yn darparu pwerau i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf gan gynnwys pwerau i wneud (a) darpariaethau gwahanol at ddibenion neu feysydd gwahanol; (b) darpariaeth atodol, ategol, canlyniadol, trosiannol, dros dro neu arbedol. At ddibenion Adran 21(1), ystyr awdurdod cenedlaethol perthnasol yw Gweinidog y Goron, awdurdod datganoledig, neu un o Weinidogion y Goron sy'n gweithredu ar y cyd gydag un neu ragor o awdurdodau datganoledig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pwrpas y Rheoliadau yw ymestyn dros dro ddarpariaethau pontio a roddwyd ar waith trwy ddeddfwriaeth ymadael â'r UE mewn perthynas â thrin hadau ac â chynhyrchion amddiffyn planhigion. Y nod yw galluogi cyflenwad digonol o hadau wedi’u trin a chynhyrchion diogelu planhigion ym marchnad Prydain Fawr gan gefnogi sefydlu cnydau da a chostau is i dyfwyr a phrynwyr bwyd a bwyd anifeiliaid.

Bydd y Rheoliadau’n dilyn y weithdrefn gadarnhaol (fel sy'n ofynnol gan baragraff 5 o Atodlen 5 i'r Ddeddf REUL). Y bwriad yw gosod y Rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 16 Hydref 2023 gyda dyddiad cychwyn o 31 Rhagfyr 2023.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai cyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn ystyrir ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar lefel Prydain Fawr. Mae Iechyd Planhigion a Phlaladdwyr yn feysydd y mae Gweinidogion Cymru yn aml wedi rhoi eu cydsyniad i’r ddeddfwriaeth gael ei gwneud ar lefel Prydain Fawr oherwydd y modd yr ymdrinnir â’r pwnc ar lefel y DU. Trwy wneud hyn, sicrheir nad oes gwahaniaeth rhwng rheoliadau Cymreig a rheoliadau rhannau eraill y DU, gan leihau unrhyw ddryswch ac anfantais i fasnachwr Cymru a lleihau unrhyw faich gweinyddol posibl i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wrth weinyddu trwyddedau ar gyfer masnach gyfochrog ac wrth ymgymryd ag unrhyw weithgarwch gorfodi. Mae’r HSE yn ymgymryd â nifer o swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru ac awdurdodau eraill Prydain Fawr drwy Gytundebau Asiantaeth.

Rwyf wedi ysgrifennu llythyr tebyg at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA).

Yn gywir

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: JJ/PO/306/2023

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

13 Medi 2023

Annwyl Huw, Llyr,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn unol â'r cytundeb rhyngsefydliadol i'ch hysbysu y bydd cyfarfod rhithwir o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd wedi'i drefnu i'w gynnal ar 23 Mawrth.

Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru. Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar sylwadau Chris Stark, Prif Weithredwr y Pwyllgor Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio Gwres.

Bydd y Grŵp yn cyhoeddi cyd-hysbysiad ar ôl y cyfarfod. Byddaf hefyd yn cyhoeddi Datganiad Ysgrifenedig.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@Senedd.Cymru

11 Medi 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr ar 7 Gorffennaf ynghylch cynigion sy'n ymwneud â chefnogi amgylchedd bwyd iachach yng Nghymru.

Mae fy atebion wedi'u nodi yn yr Atodiad canlynol.

Yn gywir

**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad**

**Cwestiwn 1: A allwch gadarnhau o dan ba Ddeddf ac o dan ba bŵer dirprwyedig rydych chi'n bwriadu cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth hon, a pha weithdrefn graffu fydd yn gymwys?**

Y bwriad yw defnyddio pwerau yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990 a Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008. Bydd y pwerau dirprwyedig penodol yn cael eu penderfynu pan fydd y polisi wedi'i gwblhau.
Bydd defnyddio'r pwerau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r is-ddeddfwriaeth fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Mae craffu gan y Senedd ar unrhyw ddeddfwriaeth wedi cael ei ystyried wrth amserlennu.

**Cwestiwn 2: Pryd yn 2024 rydych chi'n bwriadu gosod yr is-ddeddfwriaeth gerbron y Senedd?**

Ein bwriad yw gosod yr is-ddeddfwriaeth gerbron y Senedd yn ystod yr hydref 2024.

**Cwestiwn 3: Fe ddywedoch y byddwch yn dymuno ystyried cysondeb â diffiniadau a nodir yn neddfwriaeth Lloegr ar gyfyngiadau ar sail lleoliad a chyfyngiadau prisiau ar sail cyfaint, er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gallu gweithredu ar draws ffiniau. Hoffem gael rhagor o wybodaeth ac eglurder ar y pwynt hwn, gan gynnwys crynodeb o ganlyniadau unrhyw drafodaethau a gawsoch gyda Llywodraeth y DU.**

Byddwn yn ceisio sicrhau bod bwydydd yr ystyrir eu bod o fewn cwmpas y rheoliadau o fewn y cwmpas yng Nghymru hefyd, h.y. yr hyn sy'n diffinio cynnyrch fel un uchel o ran halen, braster neu siwgr (HFSS). Byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod ein diffiniadau'n cyfateb i'r diffiniadau o'r hyn yw hyrwyddiad amleitem (er enghraifft, prynu un a chael un arall am ddim, neu 50% yn ychwanegol am ddim) yn rheoliadau Lloegr. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i fanwerthwyr mewn meysydd sy'n cydgyfeirio. Caiff union natur cyfyngiadau ar sail lleoliad ei diffinio mewn rheoliadau a chanllawiau technegol, ond byddwn yn ceisio cysondeb â Lloegr yn yr achos hwn, lle bo hynny'n ymarferol ac yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth.

Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â Llywodraeth y DU a chyda diwydiant ar y rheoliadau tebyg yn Lloegr (Rheoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli (Lloegr) 2021). Er mai ein prif sbardun ar gyfer y rheoliadau hyn yw mynd i'r afael â'r argyfwng iechyd cyhoeddus yn sgil gordewdra, rydym yn cydnabod yr effaith y mae diffyg cydgyfeirio rheoleiddiol yn ei chael ar fusnesau ac yn cadw hyn mewn cof. Canlyniadau ein trafodaethau gyda diwydiant a swyddogion Llywodraeth y DU yw ceisio cysondeb lle bo hynny'n ymarferol ac yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth.

**Cwestiwn 4: Sut y byddwch chi'n datrys unrhyw wrthdaro rhwng y gallu i weithredu ar draws ffiniau a thystiolaeth wyddonol sy'n berthnasol i fynd i'r afael ag amgylchiadau penodol dinasyddion Cymru?**

Pam fo tystiolaeth wyddonol yn dangos inni fod amgylchiadau penodol dinasyddion Cymru yn golygu bod angen inni weithredu'n wahanol i Loegr neu rannau eraill o'r DU, rydym yn gweithio i ddeall yr ymatebion polisi posibl i'r amgylchiadau hynny, a sut mae hynny'n

effeithio ar faterion sy'n croesi ffiniau. Yn y set hon o gynigion, rydym yn gweithio gyda diwydiant i ddeall yr heriau y gall gweithredu'n wahanol i bolisïau ac arferion yn Lloegr eu creu, ac yn ceisio llunio atebion ar y cyd.

**Cwestiwn 5: Fe ddywedoch eich bod yn edrych ymlaen at weithredu pellach gan ein cydweithwyr yn Whitehall o ran cyfyngiadau prisiau a ffrwyno hysbysebion ar y teledu ac ar-lein sy'n hyrwyddo cynhyrchion sy'n uchel o ran braster, siwgr a halen i blant. A fyddech cystal ag egluro'r hyn sy'n cael ei ragweld, ac a oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar ddeddfwriaeth i Gymru a Lloegr**.

Roedd disgwyl i reoliadau i gyfyngu ar hysbysebu cynhyrchion sy'n uchel o ran braster a halen a siwgr ddod i rym ledled y DU ym mis Hydref 2023. Mae hyn wedi'i ohirio ddwywaith, yn gyntaf tan fis Ionawr 2024, ac yn fwyaf diweddar tan fis Hydref 2025. Rydym yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth y DU ar y rheoliadau hyn ledled y DU, ac rwyf wedi mynegi fy siom wrth Lywodraeth y DU am yr oedi hwn o'r blaen.
Daeth cyfyngiadau ar leoli cynhyrchion HFSS, megis wrth fynedfeydd a desgiau talu mewn siopau, i rym yn Lloegr ym mis Hydref 2022, ond mae mesurau eraill, gan gynnwys cyfyngu ar fargeinion amleitem ar gyfer y cynhyrchion hyn wedi'u gohirio tan fis Hydref 2023.

**Cwestiwn 6: Pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o'r modd y gallai Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 (Deddf 2020) effeithio ar effeithiolrwydd y cynigion hyn yn ymarferol?**

Rydym wedi dechrau ystyried effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU ac a fydd yn cael unrhyw effaith ar y cynigion. Fodd bynnag, hyd nes y bydd cyfarwyddiadau polisi manwl wedi'u cwblhau, ni allwn wneud asesiad manwl.

**Cwestiwn 7: Os ydych wedi nodi effaith sy'n deillio o Ddeddf 2020: a. Beth yw'r materion penodol? b. Sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r rhain? c. Sut rydych chi'n bwriadu cyfathrebu ag Aelodau'r Senedd a rhanddeiliaid ehangach ynghylch ei heffaith?**

Unwaith y gwneir asesiad diffiniol, byddaf yn sicrhau bod y pwyllgor yn derbyn atebion llawn i'r cwestiwn hwn.

**Cwestiwn 8: Pa drafodaethau rydych chi wedi'u cael gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ynghylch y rhyngweithio rhwng eich cynigion a Deddf 2020?**

Gweler fy ateb i gwestiwn 6 uchod. O'r herwydd, nid yw trafodaethau manwl ynghylch y rhyngweithio rhwng ein cynigion a Deddf 2020 wedi digwydd gyda Gweinyddiaethau Datganoledig eraill na Llywodraeth y DU.

**Cwestiwn 9: A ydych wedi ystyried yr angen i geisio eithriad rhag yr egwyddorion mynediad i'r farchnad yn Neddf 2020 i sicrhau y bydd y cynigion yn gwbl effeithiol?**

Bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniad unrhyw asesiad. Byddaf yn rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar yr un pryd â'm hymrwymiad yng Nghwestiwn 7.

**Cwestiwn 10: A ydych wedi ystyried gofyn i Swyddfa'r Farchnad Fewnol roi cyngor o dan adran 34 o Ddeddf 2020 ar effeithiau posibl y cynigion ar farchnad fewnol y DU?**

Gweler yr ateb i gwestiwn 6 uchod.

**Cwestiwn 11: Pa asesiad ydych chi wedi'i wneud o sut y gallai Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Deddf 2023) effeithio ar y cynigion hyn?**

Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda Llywodraethau'r Alban a'r DU, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar feysydd perthnasol cyfraith yr UE a ddargedwir a'u diddymiad. Unwaith y bydd cyfarwyddiadau polisi wedi'u cwblhau, byddwn yn gwneud asesiad mewn perthynas â'r cynigion hyn.

**Cwestiwn 12: A ydych yn fodlon na fydd y dirymiad awtomatig ar 31 Rhagfyr 2023 o gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n gysylltiedig â bwyd a restrir yn Atodlen 1 i Ddeddf 2023 yn effeithio ar y cynigion hyn?**

Unwaith y bydd y cyfarwyddiadau polisi terfynol wedi'u cwblhau, bydd asesiad o'r fath yn cael ei wneud.

**Cwestiwn 13: Os ydych wedi nodi unrhyw effeithiau sy'n deillio o Ddeddf 2023: a. Beth yw'r materion penodol? b. Sut y byddwch chi'n mynd i'r afael â'r rhain? c. Sut rydych chi'n bwriadu cyfathrebu ag Aelodau'r Senedd a rhanddeiliaid ehangach ynghylch ei heffaith?**

Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu i'r pwyllgor unwaith y bydd asesiad o'r fath wedi'i wneud.

**Cwestiwn 14: A ydych o'r farn fod y cynigion hyn yn cynyddu safonau bwyd yng Nghymru?**

Prif nod y cynigion hyn yw ei gwneud yn haws i ddefnyddwyr yng Nghymru wneud dewisiadau iachach yn yr amgylchedd manwerthu. Rydym yn gobeithio gweld mwy o gynigion ar gael ar gynhyrchion iachach, ac y bydd yn haws i ddefnyddwyr osgoi prynu cynhyrchion HFSS yn ddiangen oherwydd cynigion prisio atyniadol. Gall effaith bosibl arall olygu bod gweithgynhyrchwyr bwyd yn ailfformiwleiddio cynhyrchion i'w gwneud yn iachach ac na fyddant felly'n dod o dan y rheoliadau.

.

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

7 Gorffennaf 2023

Annwyl Lynne

Cynigion yn ymwneud â chefnogi amgylchedd bwyd iachach yng Nghymru

Yn ein cyfarfod ar 12 Mehefin 2023 buom yn ystyried eich llythyr dyddiedig 8 Mehefin am eich cynigion sy'n ymwneud â chefnogi amgylchedd bwyd iachach yng Nghymru. Fe roesoch rybudd ymlaen llaw i ni y byddech yn cyflwyno datganiad llafar i'r Senedd ar 27 Mehefin pan fyddech yn amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hyrwyddo prisiau a lleoliadau ac y byddech yn cyflwyno is-ddeddfwriaeth yn 2024.

Yn y cyfarfod hwnnw, nodwyd bod posibilrwydd i *Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020*, y *Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023*, a Fframweithiau Cyffredin ledled y DU oll gael effaith ar y maes gwaith hwn neu ddylanwadu arno.

Ar ôl clywed eich datganiad i'r Senedd erbyn hyn, mae rhai materion y byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth ac eglurhad arnynt.

Byddwn yn gwerthfawrogi cael ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad erbyn 31 Awst 2023.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

ATODIAD

Dywedasoch wrth y Senedd:

> *"Heddiw, rwy'n cyhoeddi fy mwriad i gyflwyno is-ddeddfwriaeth yng Nghymru i gyfyngu ar leoli a hyrwyddo prisiau cynhyrchion sy'n cynnwys llawer o fraster, siwgr a halen mewn manwerthwyr sydd â dros 50 aelod o staff (….)*
>
> *Bydd y ddeddfwriaeth, a gaiff ei chyflwyno y flwyddyn nesaf, gyda chyfnod gweithredu o 12 mis arall o leiaf i fusnesau hyd at 2025, yn cynnwys lleoli cynhyrchion a gweithgarwch hyrwyddo prisiau cyfaint. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn ystyried cynnwys hyrwyddo prisiau dros dro a bargeinion prydau bwyd o fewn y cwmpas. (…)*
>
> *Nid yw'r ddeddfwriaeth yr wyf yn ei chyflwyno yn berthnasol i bob cynnyrch sy'n cynnwys llawer o fraster, siwgr a halen, ond mae'n targedu bwyd a diod sy'n cyfrannu fwyaf at ordewdra oherwydd y caloríau sydd ynddyn nhw a'r ffordd y maen nhw'n cael eu hyrwyddo. Rydym am ystyried cysondeb â diffiniadau a nodir yn y deddfwriaeth yn Lloegr sy'n ymwneud â chyfyngu ar leoliad cynnyrch a phrisiau cyfaint, er mwyn sicrhau y gellir gweithredu ar draws ffiniau. Fodd bynnag, rydym hefyd yn ystyried y sylfaen dystiolaeth wyddonol, a fydd yn hanfodol (…)*
>
> *Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r diwydiant bwyd a phartneriaid i ddatblygu canllawiau cynhwysfawr i fanwerthwyr weithredu'r mesurau hyn. Byddwn hefyd yn helpu gweithgynhyrchwyr i ail-lunio cynhyrchion i leihau lefelau braster, siwgr neu halen. Byddwn hefyd yn cynnal ymgynghoriad ar fesurau gorfodi, gan gynnwys sut y dylid ymchwilio i gydymffurfiaeth a chosbau a gymhwysir mewn achosion o ddiffyg cydymffurfio. Byddaf yn hysbysu'r Senedd pan gaiff yr ymgynghoriad ei gyhoeddi.*
>
> *Rwy'n cael fy nghalonogi gan ddadansoddiad cychwynnol sy'n dangos bod cyfyngiadau ar leoli cynnyrch yn Lloegr wedi arwain at newid yng ngwariant defnyddwyr i ffwrdd oddi wrth gynhyrchion sy'n cynnwys llawer o fraster, siwgr a halen tuag at ddewisiadau iachach. Rwy'n edrych ymlaen at weld gweithredu pellach gan ein cydweithwyr yn Whitehall o ran cyfyngiadau ar brisiau ac o ran cwtogi ar hysbysebion teledu a hysbysebion ar-lein ar gyfer cynhyrchion sy'n cynnwys llawer o fraster, siwgr a halen uchel i blant, sy'n gam hanfodol arall tuag at wella ein hamgylchedd bwyd.*
>
> *Rwy'n dal i ystyried y dystiolaeth a'r opsiynau ar gyfer bwrw ymlaen â chynigion eraill a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad ar amgylchedd bwyd iach. Mae hyn yn*

*cynnwys ystyried tystiolaeth bellach ar labelu caloriau, a'r cyfleoedd i ddatblygu dull ehangach y tu allan i'r cartref i sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cael yr effaith fwyaf bosibl. Rwyf hefyd yn ystyried tystiolaeth bellach ar wahardd gwerthu diodydd egni i blant. Byddaf yn gwneud datganiad pellach ar y cynigion hyn i'r Senedd maes o law."*

Cwestiwn 1: A allwch gadarnhau o dan ba Ddeddf a phŵer dirprwyedig yr ydych yn bwriadu cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth hon, a pha weithdrefn graffu a fydd yn gymwys.

Cwestiwn 2: Pryd yn 2024 ydych chi'n bwriadu gosod yr is-ddeddfwriaeth gerbron y Senedd?

Cwestiwn 3: Rydych wedi dweud y byddwch "am ystyried cysondeb â diffiniadau a nodir yn y ddeddfwriaeth yn Lloegr sy'n ymwneud â chyfyngu ar leoliad cynnyrch a phrisiau cyfaint, er mwyn sicrhau y gellir gweithredu ar draws ffiniau." Byddem yn ddiolchgar i dderbyn rhagor o wybodaeth ac eglurder ar y pwynt hwn, gan gynnwys crynodeb o ganlyniadau unrhyw drafodaethau a gawsoch â Llywodraeth y DU.

Cwestiwn 4: Sut byddwch chi'n datrys unrhyw wrthdaro rhwng "gweithredu ar draws ffiniau" a thystiolaeth wyddonol sy'n berthnasol i fynd i'r afael ag amgylchiadau penodol dinasyddion Cymru?

Cwestiwn 5: Dywedasoch "Rwy'n edrych ymlaen at weld gweithredu pellach gan ein cydweithwyr yn Whitehall o ran cyfyngiadau ar brisiau ac o ran cwtogi ar hysbysebion teledu a hysbysebion ar-lein ar gyfer cynhyrchion sy'n cynnwys llawer o fraster, siwgr a halen uchel i blant". A fyddech cystal ag egluro'r hyn sy'n cael ei ragweld, ac a oes gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar ddeddfwriaeth ar gyfer Cymru a Lloegr.

Cwestiwn 6: Pa asesiad rydych chi wedi'i wneud o sut y gallai *Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020* (Deddf 2020) effeithio ar effeithiolrwydd y cynigion hyn yn ymarferol?

Cwestiwn 7: Os ydych wedi nodi effaith sy'n deillio o Ddeddf 2020:

a. Beth yw'r materion penodol?

b. Sut y byddwch chi'n mynd i'r afael â'r rhain?

c. Sut ydych chi'n bwriadu cyfathrebu ag Aelodau o'r Senedd a rhanddeiliaid ehangach ynghylch yr effaith?

Cwestiwn 8: Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ynghylch y rhyngweithio rhwng eich cynigion a Deddf 2020?

Cwestiwn 9: A ydych wedi ystyried yr angen i ofyn am eithriad o egwyddorion mynediad i'r farchnad Deddf 2020 i sicrhau y bydd y cynigion yn gwbl effeithiol?

**Cwestiwn 10**: A ydych wedi ystyried gofyn i Swyddfa'r Farchnad Fewnol roi cyngor o dan adran 34 o Ddeddf 2020 ar effeithiau posibl y cynigion ar farchnad fewnol y DU?

**Cwestiwn 11**: Pa asesiad rydych chi wedi'i wneud o sut y gallai *Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023* (Deddf 2023) effeithio ar y cynigion hyn?

**Cwestiwn 12**: A ydych yn fodlon na fydd y dirymiad awtomatig ar 31 Rhagfyr 2023 o gyfraith yr UE a ddargedwir sy'n gysylltiedig â bwyd a restrir yn Atodlen 1 i Ddeddf 2023 yn effeithio ar y cynigion hyn?

**Cwestiwn 13**: Os ydych wedi nodi unrhyw effaith sy'n deillio o Ddeddf 2023:

a. Beth yw'r materion penodol?

b. Sut y byddwch chi'n mynd i'r afael â'r rhain?

c. Sut ydych chi'n bwriadu cyfathrebu ag Aelodau o'r Senedd a rhanddeiliaid ehangach ynghylch yr effaith?

**Cwestiwn 14:** Ydych chi'n ystyried bod y cynigion hyn yn codi safonau bwyd yng Nghymru?

**Mick Antoniw AS/MS**

**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@Senedd.Wales

12 Medi 2023

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr ar 14 Gorffennaf 2023 yn gofyn am ateb i gwestiynau'n ymwneud â Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio). Mae fy atebion yn yr atodiad a ganlyn.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## *ATODIAD*

***Cwestiwn 1:***

*Yn eich llythyr atom dyddiedig 7 Gorffennaf, gwnaethoch gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o gyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf ac "[nid] yw hi'n ymddangos y bydd unrhyw broblemau i feysydd o fewn cymhwysedd datganoledig yn deillio o ddirymu'r offerynnau a restrir" ac "nid ydym ar hyn o bryd yn gweld yr angen i arfer pwerau o'r fath ac nid oes gennym gynlluniau cyfredol i'w defnyddio".*

a. *Yn ystod ein cyfarfod, dywedsoch wrthym fod y gwaith hwn yn dal i fod ar y gweill, ei fod yn rhywbeth y byddech am graffu arno'n llawer agosach hyd at y pwynt penodol hwnnw, a bod ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y DU yn parhau. A fyddech cystal â chadarnhau ein dealltwriaeth bod asesiad Llywodraeth Cymru o'r Atodlen felly yn dal i fynd rhagddo, ac a wnewch gadarnhau y byddwch yn darparu asesiad terfynol wedi'i ddiweddaru i ni cyn gynted ag y bo modd.*

Gallwn gadarnhau bod y gwaith ar Atodlen 1 o'r Ddeddf ('yr Atodlen'), wedi parhau. Er na wnaeth ein hadolygiad cychwynnol o'r atodlen godi unrhyw faterion amlwg, gwnaethom hefyd esbonio yn y cyfarfod ar 10 Gorffennaf nad ydym yn gallu cadarnhau 100% na fydd unrhyw faterion pellach yn codi. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill i adolygu cynnwys yr atodlen.

Fel y nodwyd yn y cyfarfod ar 10 Gorffennaf, mae Llywodraeth y DU ei hun yn cydnabod bod yr atodlen wedi'i llunio'n gyflym iawn ac y gall adolygiad pellach ddatgelu materion nad oedd wedi'u nodi yn wreiddiol.

Yn y cyd-destun hwnnw, cefais ohebiaeth gan Weinidog Gwladol dros Ddiwydiant a Diogelwch Economaidd Llywodraeth y DU, Nusrat Ghani AS, ar 2 Awst. Nododd ei bod yn amlwg ar ôl archwilio ymhellach fod nifer fechan o offerynnau yn yr Atodlen y dylid eu cadw gan eu bod yn dal i gael eu defnyddio. O'r rheini, mae dau, sy'n ymwneud â chynhyrchion bioleiddiadol sy'n cynnwys copr, mewn ardaloedd datganoledig. Roedd y rhain yn wreiddiol wedi'u cynnwys yn yr Atodlen ar gyfer eu dirymu, ond mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi nodi'r rhain fel sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio cynnyrch o'r fath yn ddiogel ac mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu dileu o'r Atodlen, gan ddefnyddio'r pwerau o dan Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir.

Roedd y Gweinidog Ghani yn cydnabod mai mesurau iechyd y cyhoedd yw'r rhain ac felly eu bod yn gyfrifoldeb datganoledig, a gofynnodd i Weinidogion Cymru roi caniatâd ar gyfer OS i'w dileu o'r Atodlen.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r darpariaethau hyn ymhellach o ganlyniad i'r wybodaeth ychwanegol yn y llythyr, ac wedi dod i'r casgliad y dylid cadw'r ddau Benderfyniad Comisiwn hyn (2014/85/EU a 2014/395/EU). Mae'r Penderfyniadau ar hyn o bryd yn caniatáu i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch roi awdurdodiadau penodol ar gyfer cyflenwi a defnyddio cynhyrchion bioleiddiadol sy'n cynnwys neu sy'n cynhyrchu copr.

Mae copr yn sail ar gyfer 19 o awdurdodiadau a elwir yn awdurdodiadau 'defnydd hanfodol' ar gyfer cynhyrchion bioleiddiadol a ddefnyddir at ddibenion fel atal legionella mewn ysbytai ac adeiladau cyhoeddus, ac i atal halogi mewn cilfachau dwr ar lwyfannau olew.

Pe bai'r darpariaethau hyn yn cael eu dirymu drwy'r Atodlen, byddai'r rhai hynny sy'n defnyddio bioladdwyr copr yn gorfod newid i dechnolegau amgen. Byddai hyn yn gostus ac yn llafurus i lawer o ddefnyddwyr, gan y byddai angen ailosod ac ailadeiladu systemau hollol wahanol. Mae dewis systemau ar gyfer hyn yn gymhleth a gall arwain at risg o ddefnyddio systemau llai effeithiol. Ar y sail honno, gwnaethom ysgrifennu at Lywodraeth y DU ym mis Awst i roi caniatâd i gadw'r darpariaethau cyfreithiol hyn fel bod y cyflenwad a'r defnydd diogel hwn o fioladdwyr copr yn parhau i gael ei ganiatáu gan y gyfraith.

Mae ein hasesiad o'r Atodlen yn parhau, mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU. Byddwn yn parhau i roi diweddariadau pellach i'r pwyllgor am unrhyw newidiadau angenrheidiol.

*b. A fyddech cystal ag egluro a yw asesiad Llywodraeth Cymru wedi ystyried unrhyw oblygiadau i Gymru, ac nid materion sy'n dod o fewn cymhwysedd datganoledig yn unig?*

Mae ein hadolygiad hyd yma wedi canolbwyntio'n bennaf ar yr offerynnau mewn meysydd datganoledig.

*c. Pan wnaethom ofyn am eich ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan sefydliadau amgylcheddol am yr Atodlen, dywedsoch nad oeddech yn ymwybodol o unrhyw bryderon ond gwnaethoch gydnabod ei bod yn bosibl bod pryderon wedi cael eu codi ym mhortffolios Gweinidogion eraill. Byddem yn croesawu cael cadarnhad ynghylch a oes unrhyw bryderon ynghylch cyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn yr Atodlen wedi'u codi gydag unrhyw un o Weinidogion Cymru, a manylion y pryder neu bryderon a godwyd.*

Rwy'n ymwybodol bod Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wedi ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd ynglŷn â'r mater hwn ar 25 Gorffennaf. Rwy'n deall y bydd hi'n ateb y llythyr hwn yn fuan ac y bydd copi'n cael ei anfon atoch.

***Cwestiwn 2:***

*Yn eich llythyr dyddiedig 7 Gorffennaf, mewn ymateb i gwestiynau 4 i 6 ar Weinidogion Llywodraeth y DU yn arfer pwerau gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig, dywedsoch wrthym fod Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod â Llywodraeth y DU ynghylch "mecanwaith cydsyniad amgen". Yn ystod ein cyfarfod dywedsoch wrthym: "we have a concession, I think in writing, that, basically, the UK Government… will not legislate in these areas without the consent of Welsh Government". A fyddech cystal â chadarnhau telerau'r cytundeb hwn a rhannu'r ohebiaeth â ni sy'n nodi trafodaethau yn ei gylch a'i fanylion terfynol? A allwch hefyd egluro sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol ynghylch Gweinidogion Llywodraeth y DU yn arfer y pwerau gwneud rheoliadau hyn.*

Nid yw'r mater hwn wedi'i ddatrys yn llwyr rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eto. Rydym yn gobeithio y bydd yn cael ei ddatrys yn fuan, mewn modd sy'n diogelu ac yn parchu'r setliad datganoli. Byddwn yn sicrhau bod y Senedd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol drwy'r sianelau arferol.

***Cwestiwn 3:***

*Mewn perthynas â machlud yn achos hawliau a rhwymedigaethau sy'n uniongyrchol effeithiol, dywedsoch yn eich llythyr atom dyddiedig 7 Gorffennaf fod trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ar y mater hwn, gan gynnwys ynghylch a ellid defnyddio'r pwerau priodol yn y Ddeddf i fynd i'r afael â phryderon. Gwnaethoch ychwanegu "This is a significant piece of work that we are now having to apply on a case-by-case basis across different policy areas and pieces of legislation", a dywedsoch y byddech yn ein hysbysu ynghylch gynnydd. Rydym yn croesawu eich ymrwymiad i'n hysbysu. A fyddech cystal â rhoi rhagor o fanylion hefyd am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru?*

Mae goblygiadau'r ddeddf yn ddibynnol i raddau helaeth ar unrhyw benderfyniadau sydd eisoes i'w gwneud gan Weinidogion y DU ar gyfer diwygio'r Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir bresennol mewn meysydd allweddol. Rydym yn parhau i drafod gyda Llywodraeth y DU ar lefel swyddogol ynghylch datblygiadau posibl o'r math hwn. Y ffocws uniongyrchol ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru yw gweithredu'r Ddeddf, gan gynnwys OS i newid cyfeiriadau at "gyfraith yr UE a ddargedwir" i "gyfraith a gymhathwyd" (neu debyg) ar draws yr holl ddeddfwriaeth bresennol a wnaed yng Nghymru) ac mewn perthynas â dod â darpariaethau i ben ar effeithiau dehongli Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir.

Byddwn yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

14 Gorffennaf 2023

Annwyl Mick,

Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 7 Gorffennaf 2023 lle gwnaethoch ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd gennym ar 27 Mehefin. Rydym yn ddiolchgar ein bod wedi gallu mynd ar drywydd rhai o'r materion hyn gyda chi yn ein cyfarfod ar 10 Gorffennaf.

Yn dilyn y sesiwn gyda chi, roeddem yn gallu adolygu'n llawnach yr ymatebion a ddarparwyd gennych yn eich llythyr, ac mae pwyntiau pellach yr hoffem eu codi gyda chi, yn enwedig yng nghyd-destun y drafodaeth yn ystod y cyfarfod.

Rydym yn gwerthfawrogi eich ymgysylltiad parhaus â ni ar y darn sylweddol hwn o ddeddfwriaeth, a byddwn yn croesawu cael ymateb i'r cwestiynau yn yr Atodiad erbyn 1 Medi 2023.

Anfonir copi o'r llythyr hwn hefyd at Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

*Huw Irranca-Davies*

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

ATODIAD

**Cwestiwn 1:** Yn eich llythyr atom dyddiedig 7 Gorffennaf, gwnaethoch gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o gyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf ac "[nid] yw hi'n ymddangos y bydd unrhyw broblemau i feysydd o fewn cymhwysedd datganoledig yn deillio o ddirymu'r offerynnau a restrir" ac "nid ydym ar hyn o bryd yn gweld yr angen i arfer pwerau o'r fath ac nid oes gennym gynlluniau cyfredol i'w defnyddio".

a. Yn ystod ein cyfarfod, dywedsoch wrthym fod y gwaith hwn yn dal i fod ar y gweill, ei fod yn rhywbeth y byddech am graffu arno'n llawer agosach hyd at y pwynt penodol hwnnw, a bod ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth y DU yn parhau. A fyddech cystal â chadarnhau ein dealltwriaeth bod asesiad Llywodraeth Cymru o'r Atodlen felly yn dal i fynd rhagddo, ac a wnewch gadarnhau y byddwch yn darparu asesiad terfynol wedi'i ddiweddaru i ni cyn gynted ag y bo modd?

b. A fyddech cystal ag egluro a yw asesiad Llywodraeth Cymru wedi ystyried unrhyw oblygiadau i Gymru, ac nid materion sy'n dod o fewn cymhwysedd datganoledig yn unig?

c. Pan wnaethom ofyn am eich ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan sefydliadau amgylcheddol am yr Atodlen, dywedsoch nad oeddech yn ymwybodol o unrhyw bryderon ond gwnaethoch gydnabod ei bod yn bosibl bod pryderon wedi cael eu codi ym mhortffolios Gweinidogion eraill. Byddem yn croesawu cael cadarnhad ynghylch a oes unrhyw bryderon ynghylch cyfraith yr UE a ddargedwir a restrir yn yr Atodlen wedi'u codi gydag unrhyw un o Weinidogion Cymru, a manylion y pryder neu bryderon a godwyd.

**Cwestiwn 2:** Yn eich llythyr dyddiedig 7 Gorffennaf, mewn ymateb i gwestiynau 4 i 6 ar Weinidogion Llywodraeth y DU yn arfer pwerau gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig, dywedsoch wrthym fod Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod â Llywodraeth y DU ynghylch "mecanwaith cydsyniad amgen". Yn ystod ein cyfarfod dywedsoch wrthym: "we have a concession, I think in writing, that, basically, the UK Government… will not legislate in these areas without the consent of Welsh Government". A fyddech cystal â chadarnhau telerau'r cytundeb hwn a rhannu'r ohebiaeth â ni sy'n nodi trafodaethau yn ei gylch a'i fanylion terfynol? A allwch hefyd egluro sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ac yn rhannu gwybodaeth berthnasol ynghylch Gweinidogion Llywodraeth y DU yn arfer y pwerau gwneud rheoliadau hyn?

**Cwestiwn 3:** Mewn perthynas â machlud yn achos hawliau a rhwymedigaethau sy'n uniongyrchol effeithiol, dywedsoch yn eich llythyr atom dyddiedig 7 Gorffennaf fod trafodaethau'n parhau rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig ar y mater hwn, gan gynnwys ynghylch a ellid defnyddio'r pwerau priodol yn y Ddeddf i fynd i'r afael â phryderon. Gwnaethoch ychwanegu "This is a significant piece of work that we are now having to apply on a case-by-case basis across different policy areas and pieces of legislation", a dywedsoch y byddech yn ein hysbysu ynghylch gynnydd.

Rydym yn croesawu eich ymrwymiad i’n hysbysu. A fyddech cystal â rhoi rhagor o fanylion hefyd am y gwaith sy’n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru?

**Jeremy Miles AS/MS**

**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

13 Medi 2023

Annwyl Jayne

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 12 Gorffennaf, ynghylch y canllawiau statudol am addysg ddewisol yn y cartref, a'r ohebiaeth rydych wedi'i chael gan addysgwyr cartref.

I lawer o deuluoedd, byddai'r penderfyniad i addysgu yn y cartref wedi bod yn ddewis cadarnhaol. Fodd bynnag, rydym yn gwybod na fyddai hyn wedi bod yn wir i bawb efallai. Dyma un o'r rhesymau pam mae'r canllawiau statudol newydd, a gyhoeddwyd ym mis Mai, mor bwysig i sicrhau bod pob dysgwr yn cael addysg addas ac effeithlon.

Wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref, defnyddiodd Llywodraeth Cymru ystod eang o ddulliau i ymgysylltu ac ymgynghori'n llawn â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghoriadau cyhoeddus ar-lein a digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol wyneb yn wyneb. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i bob ymateb ynghylch y canllawiau statudol, gan gynnwys yr ymatebion a oedd yn cyfeirio at ddeddfwriaeth hawliau dynol a diogelu data. Mae rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Defnyddiwyd adborth y cyfarfodydd ymgynghori, a'r digwyddiadau a gynhaliwyd gydag addysgwyr cartref a grwpiau sy'n cynrychioli addysgwyr cartref, i lywio sawl diwygiad pellach i'r canllawiau statudol a llawlyfr addysgwyr cartref.

Mae fy swyddogion wedi mynd ati i ymgysylltu â grwpiau, ac fe wnes i gwrdd ag Education Otherwise. Yn fwy diweddar, yn dilyn trafodaethau pellach gydag un o'r grwpiau sy'n cynrychioli addysg ddewisol yn y cartref, rwyf wedi cytuno ar fân-

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


ddiwygiadau i'n canllawiau ers eu cyhoeddi. Rwyf hefyd wedi ymrwymo eisoes i werthuso'r canllawiau, i wneud yn siŵr bod modd asesu eu heffaith, a sut mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio. Caiff y gwerthusiad ei gynnal yn annibynnol, gan gychwyn ym mis Mai 2024.

I sicrhau bod teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn ymwybodol o'r rheswm pam mae'r newidiadau i'r canllawiau yn bwysig, ac i gynnig eglurder ar y materion y cyfeirir atynt mewn gohebiaeth, cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru sesiynau ymgysylltu pellach rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac addysgwyr cartref ar 26 a 28 Mehefin. Roedd y sesiynau yn gyfle i addysgwyr cartref drafod eu pryderon gyda Llywodraeth Cymru, ac i swyddogion gynnig sicrwydd ynghylch gwahanol elfennau o'r canllawiau a'r llawlyfr. Roedd adborth fy swyddogion yn dynodi bod y sesiynau yn adeiladol ac yn gyfle i bawb gael dweud eu dweud mewn lleoliad cefnogol a niwtral.

Yn dilyn y sesiynau, tynnodd y Comisiynydd Plant ynghyd bob ymholiad a godwyd yn ystod y sesiynau. Grwpiwyd yr ymholiadau hyn yn themâu, ac mae fy swyddogion wedi drafftio papur yn nodi manylion yr ymatebion, a gaiff ei rannu ag addysgwyr cartref gan y Comisiynydd Plant. Mae'r papur, sydd ynghlwm yn Atodiad 1, yn cynnwys ymatebion i'r pryderon a godwyd yn yr ohebiaeth a ddaeth i law'r Pwyllgor. Fodd bynnag, efallai y byddwch am nodi bod llawer o'r sylwadau a gyflwynwyd wedi'u hanfon at Lywodraeth Cymru hefyd, ac felly bod y gohebwyr wedi cael ymatebion gan fy swyddogion.

Mae hawliau plant yn ganolog i'r cynigion ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref, ac rwyf wedi ymrwymo i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael addysg sy'n eu galluogi i sicrhau'r canlyniad gorau posibl i'w dyfodol. Nawr bod y canllawiau wedi cael eu cyhoeddi, bydd fy swyddogion yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu'r canllawiau a pharhau â'r ddeialog gyda chymuned addysgwyr cartref, i ofalu bod safbwyntiau teuluoedd, gan gynnwys plant sy'n cael eu haddysgu gartref, yn cael eu clywed.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Fforymau Addysg Ddewisol yn y Cartref Comisiynydd Plant Cymru**
**26 a 28 Mehefin 2023**

## Cefndir

Hwylusodd Comisiynydd Plant Cymru ddwy sesiwn rhwng Llywodraeth Cymru a theuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref, i ateb unrhyw ymholiadau a all fod gan deuluoedd mewn perthynas â'r canllawiau statudol newydd a'r llawlyfr i rieni ar Addysg Ddewisol yn y Cartref, a gyhoeddwyd 12 Mai a 9 Mehefin, yn y drefn honno.

Anfonwyd gwahoddiad gan Lywodraeth Cymru ar ran Comisiynydd Plant Cymru i awdurdodau lleol ei rannu â'u rhwydweithiau Addysg Ddewisol yn y Cartref a'r rhanddeiliaid hynny a oedd eisoes wedi mynegi diddordeb yn y maes hwn. Fel rhan o'r gwahoddiad hwnnw, gofynnwyd i deuluoedd e-bostio Comisiynydd Plant Cymru i gofrestru eu diddordeb ac yna rhoddwyd cyfarwyddiadau iddynt ar sut i ymuno. Er bod 50 o lefydd wedi'u dyrannu ar gyfer pob digwyddiad yn wreiddiol, dangosodd mwy na hyn ddiddordeb ac anfonwyd cyfarwyddiadau ymuno at bawb a oedd wedi dangos diddordeb mewn mynychu.

Oherwydd cyfyngiadau amser, ni lwyddwyd i ateb cwestiynau a ofynnwyd gan y rhai a oedd yn bresennol yn ystod y sesiynau ac felly rhoddwyd atebion i'r ymholiadau yn y ‘bar sgwrsio’, ac mae ymholiadau dilynol a anfonwyd dros e-bost i Lywodraeth Cymru yn dilyn y sesiynau wedi'u nodi isod.

Lle'r oedd y cwestiynau'n cynnwys datganiadau yn seiliedig ar brofiadau neu farn bersonol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylwadau, heblaw i ateb y cwestiwn ac i gywiro camddehongliadau o'r gyfraith neu bolisïau.

<table>
<tr><td colspan="3">Cyffredinol</td></tr>
<tr><td>1.</td><td>A allech grynhoi'r hyn sy'n newydd o ran yr hyn rydym newydd ei weld?</td><td>Diben y canllawiau yw cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau presennol mewn perthynas â phlant a addysgir gartref a'u helpu i ddarparu cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Ymysg y newidiadau penodol mae:<br><br>• disgrifiad manylach o beth yw ‘addysg addas ac effeithlon’ yn cynnwys nodweddion awgrymedig fel y gall ALlau wneud penderfyniad haws ynghylch a yw plentyn yn derbyn addysg addas<br>• adran fanwl ar gyfer ALlau ar asesu addasrwydd addysg<br>• pwyslais ar weld y plentyn<br>• eglurder ar y dyletswyddau o dan y Ddeddf a'r Cod ADY newydd.<br>• mwy o fanylion ar gymorth i blant a addysgir gartref o gymharu â'r fersiwn flaenorol<br>• adran benodol ar fynediad i arholiadau<br>• manylion ar Orchmynion Mynychu'r Ysgol<br>• adran fwy cynhwysfawr ar ddiogelu<br>• cyfraith achosion ddiweddar Goodred v Cyngor Dinas Portsmouth</td></tr>
<tr><td colspan="3">Thema 2: Cyfarfodydd ag awdurdod lleol a chydberthnasau â nhw</td></tr>
<tr><td>2.</td><td>Beth sy'n digwydd os bydd rhieni yn gwrthod cyfarfod â'u plentyn neu nhw eu hunain?</td><td rowspan="2">Mae Adran 4.21 o ganllawiau statudol Addysg Ddewisol yn y Cartref yn cydnabod y gall rhiant neu blentyn o allu Gillick wrthod cyfarfod â'r awdurdod lleol.<br><br>Er bod rhieni'n rhydd i wrthod cyfarfod â'r awdurdod lleol, mae'n amheus a all awdurdod lleol asesu addasrwydd addysg yn rhesymol heb weld y plentyn a chyfathrebu ag ef. Mater i'r awdurdod lleol unigol yw'r penderfyniad hwn.</td></tr>
<tr><td>3.</td><td>Nid yw'r canllawiau'n nodi hynny'n glir. Mae naill ai'n orfodol neu ddim ac ni ddylai fod unrhyw effeithiau negyddol os bydd rhieni a phlant a addysgir gartref yn penderfynu na fyddai cyfarfod wyneb yn wynebu o fudd i'r plentyn.</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 4. | A ellir egluro hyn yn y canllawiau – mae'r gair ‘dylai’ weld yn y canllawiau yn awgrymu bod cyfarfod yn ofynnol fel arfer?  Byddai hyn yn diystyru dymuniadau plentyn nad yw am gwrdd â dieithryn. | Mae Adran 4.21 o'r canllawiau Addysg Ddewisol yn y Cartref yn cydnabod “Fodd bynnag, nid oes rheidrwydd ar rieni a phlant o allu Gillick â'r awdurdod lleol ac maent yn rhydd i wrthod cyfarfod os byddant yn dymuno”.<br><br>Hefyd, mae adran 4.22 o'r canllawiau yn nodi “Gall fod achlysuron lle nad yw er budd gorau'r plentyn i'r awdurdod lleol gyfarfod ag ef”.<br><br>Mae Adran 4.27 o'r canllawiau Addysg Ddewisol yn y Cartref yn amlinellu efallai nad cyfarfod yw'r unig ddull i'r awdurdod lleol gael sicrwydd bod yr addysg yn addas. Gallai awdurdod lleol, os byddai o'r farn bod hynny'n briodol, anfon holiadur rhag-gyfarfod i'w gwblhau ar y cyd gan deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref a'u plant. Bydd hyn yn rhan o ddull mwy cyfannol i asesu addasrwydd yr addysg. Gall yr awdurdod lleol ddefnyddio'r ymateb i'r holiadur i lywio ei drafodaeth â rhieni sy'n addysgu yn y cartref a'u plant.<br><br>Mae Adran 2.26 o'r llawlyfr Addysg Ddewisol yn y Cartref hefyd yn nodi y gall fod ffyrdd eraill y gallai rhiant ddangos bod y plentyn yn cael addysg addas ac effeithlon ac mae'n rhoi enghreifftiau i rieni. |
| 5. | Sut y gwneir y penderfyniad ynghylch a yw'n briodol gweld y plentyn ai peidio? Yn enwedig mewn perthynas â phethau fel anableddau cudd, niwro amrywiaeth ac iechyd meddwl er enghraifft. Pwy yn yr ALl sy'n gymwys i wneud y penderfyniad hwn, tybed? | Swyddogion unigol yn yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am hyn.<br><br>Mae Adran 4.22 o'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn amlinellu y gall fod adegau lle na fydd er budd gorau'r plentyn i'r awdurdod lleol gyfarfod ag ef, neu mewn rhai amgylchiadau, gall yr awdurdod lleol ddod i'r casgliad heb weld y plentyn na chyfathrebu ag ef ei fod yn cael addysg addas. Lle caiff casgliad o'r fath ei gyrraedd, dylid pennu dyddiad priodol i'r penderfyniad gael ei adolygu, gan ystyried amgylchiadau unigol y plentyn. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Lle mae ADY wedi'i nodi ar gyfer dysgwyr a allai gynnwys diagnosis niwrolegol, iechyd meddwl, byddai'n arfer dda i'r swyddogion Addysg Ddewisol yn y Cartref drafod â chydweithwyr sy'n gweithio gyda thimau statudol ac ochr yn ochr â nhw i bennu ffyrdd amgen o ddarparu tystiolaeth<br><br>Lle nad oes angen wedi'i nodi ar gyfer dysgwyr a bod y rhieni'n teimlo nad yw'n briodol i'r plentyn gael ei weld, bydd angen i'r swyddogion Addysg Ddewisol yn y Cartref geisio safbwyntiau timau statudol sydd â phrofiad o ddelio â dysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol, o ran a yw cyfarfod er budd gorau'r plentyn. |
| 6. | Mae'r gyfraith yn nodi mai'r rhiant sy'n gyfrifol am addysg y plentyn, nid yr awdurdod lleol. Mae'r gyfraith yn caniatáu addysg yn y cartref. Gan nad yw'r cyfreithiau hyn wedi cael eu newid, ar ba sail y mae'r awdurdod lleol yn mynnu cael cyfarfodydd i asesu addasrwydd yr addysg rwy'n ei darparu i'm plentyn? | Mae gan rieni gyfrifoldeb i sicrhau bod eu plant yn cael addysg addas ac effeithlon naill ai yn yr ysgol neu fel arall. Fodd bynnag, yr awdurdod lleol sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol i benderfynu ar addasrwydd yr addysg. Rhaid iddynt wneud y canlynol:<br><br>a) gwneud trefniadau i nodi plant nad ydynt yn cael addysg addas, a<br>b) cymryd camau os bydd yn ymddangos nad yw'r plentyn yn cael addysg addas. Nodir hyn o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996.<br><br>Mae Adran 437 o'r Ddeddf Addysg yn nodi, os bydd yn ymddangos nad yw plentyn o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal yn cael addysg addas, naill ai drwy fynd i'r ysgol neu fel arall, y bydd awdurdodau lleol yn rhoi rhybudd sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i riant roi sicrwydd bod y plentyn yn cael addysg o'r fath.<br><br>Mae dyletswydd awdurdod o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996 (ac o dan adran 437) yn sail ddigonol dros wneud ymholiadau anffurfiol â'r rhiant/gofalwr i benderfynu pa fath o addysg y mae'r plentyn yn ei gael a ph'un a yw'r awdurdod lleol yn credu bod hyn yn addas ac yn effeithlon. |
| 7. | A ydych yn deall pam y mae gan y gymuned gymaint o gwestiynau a phryderon ynghylch cynnwys y | Nid yw'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn newid dyletswyddau presennol awdurdod lleol. Mae'r canllawiau'n ei gefnogi i |

| | | |
|---|---|---|
| | canllawiau? Yn y bôn, mae'n gofyn i un person, cynrychiolydd unigol o'r awdurdod lleol, lunio barn ynghylch pa mor dda y mae rhiant yn magu ei blentyn heb UNRHYW dystiolaeth bod angen gwneud hynny. Wyddoch chi faint o straen sydd ar deuluoedd a pha mor anodd ydyw cael un person, un dieithryn nad ydym yn gwybod braidd ddim amdano, yn penderfynu pa mor dda y mae rhiant yn magu ei blentyn ei hun oherwydd dewis y mae'r teulu wedi bod am ei wneud neu wedi bod angen ei wneud i wrthod yr opsiwn o ddarpariaeth addysgol y wladwriaeth. | gyflawni ei swyddogaethau ac maent yn egluro'r rhain o fewn cyd-destun Addysg Ddewisol yn y Cartref.<br><br>Rôl a dyletswydd statudol yr awdurdod lleol yw penderfynu pa addysg a gaiff ei darparu a ph'un a yw'n addas ac yn effeithlon. Nid oes asesiad na barn ynghylch sut y caiff y plentyn ei fagu na dewisiadau bywyd rhiant. Mae gan riant yr hawl i ddewis addysgu ei blentyn gartref, fodd bynnag, nid yw addysg yn y cartref yn hawl awtomatig i rieni; mae'n dibynnu ar ddarpariaeth addysg addas ac effeithlon.<br><br>Mae Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi'r ddyletswydd a roddir ar rieni i sicrhau addysg amser llawn sy'n addas ac yn effeithlon i blant o oedran ysgol gorfodol, naill ai drwy anfon y plentyn i'r ysgol neu drwy ddulliau eraill – un o'r dulliau hyn yw bod plentyn yn penderfynu addysgu yn y cartref. Wedi'i gydbwyso yn erbyn y penderfyniad hwn y mae'r disgwyliad y gall awdurdodau lleol asesu addasrwydd yr addysg a ddarperir gan rieni. Er mwyn i awdurdod lleol gyflawni'r swyddogaeth honno, nid yw'n afresymol i awdurdodau lleol ofyn i rieni am eu dull gweithredu a'r addysg a ddarperir ganddynt.<br><br>Os ystyrir nad yw'r addysg a ddarperir yn addas nac yn effeithlon, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol gael eu prosesau eu hunain ar waith i uwchgyfeirio achosion lle gall fod angen cymryd camau mwy ffurfiol. |
| 8. | Mae fy awdurdod lleol eisoes wedi fy mygwth â Gorchymyn Mynychu'r Ysgol am wrthod ysgrifennu adroddiad er i mi roi adroddiad iddo y flwyddyn flaenorol. Ac er i mi lwyddo i addysgu fy mhlant hŷn, sydd bellach yn y brifysgol, o gartref am 25 mlynedd. Nid oedd yn credu nad oeddwn yn darparu addysg addas. Defnyddio hynny fel bygythiad oeddent. Sut y caiff y math hwn o ymddygiad ei osgoi. | Caiff hyn ei egluro o dan Gwestiwn 5. Rhaid i awdurdodau lleol gael sicrwydd bod addysg addas yn cael ei darparu. Mae dyletswydd awdurdod lleol o dan Ddeddf Addysg 1996 (adran 437) yn sail ddigonol dros wneud ymholiadau anffurfiol â'r rhiant/gofalwr i benderfynu pa fath o addysg y mae'r plentyn yn ei gael a ph'un a yw'r awdurdod lleol yn credu bod hyn yn addas ac yn effeithlon. Mae'r canllawiau'n egluro y dylai'r awdurdod lleol geisio cael y wybodaeth angenrheidiol ac ymgysylltu â'r teulu cyn rhoi Gorchymyn Mynychu'r Ysgol. Os bydd y rhiant/gofalwr yn gwrthod rhoi unrhyw wybodaeth ac na all yr awdurdod lleol asesu'r addysg a ddarperir, |

| | | |
|---|---|---|
| | Codwyd cwestiwn tebyg mewn gohebiaeth ar wahân: Beth sy'n digwydd pan fydd rhieni'n gwrthod rhoi “samplau” o “waith” am nad ydyn nhw neu eu plentyn yn rhoi cydsyniad am resymau cyfreithiol, moesegol, athronyddol neu addysgol? | gall orfod rhoi Gorchymyn Mynychu'r Ysgol.<br><br>Mae Adran 5.3 o'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn nodi “Yn niffyg gwybodaeth sy'n awgrymu bod plentyn yn cael addysg addas, ac os yw'r rhieni'n gwrthod ateb am reswm nad yw'n gysylltiedig â'r addysg, yr unig gasgliad y mae'n rhesymol i'r awdurdod lleol ddod iddo yw ei bod yn ymddangos nad yw'r addysg yn y cartref yn addas”.<br><br>Mae'r canllawiau'n cydnabod bod y dull gweithredu y mae rhieni sy'n addysgu o gartref yn ei gymryd yn debygol o fod yn seiliedig ar eu hathroniaeth neu eu safbwyntiau, a gall absenoldeb asesiad ffurfiol fod yn un o nodweddion y ddarpariaeth addysg. Caiff hyn ei ystyried yn llawn gan yr awdurdodau lleol ond rhaid iddynt allu ymgymryd â'u dyletswyddau statudol o hyd.  Mae'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn nodi 4.33: ‘Mae cynsail cyfreithiol wedi pennu y gall awdurdodau lleol wneud ymholiadau anffurfiol i rieni er mwyn cael manylion y ddarpariaeth addysgol a wneir ar gyfer eu plentyn’. |
| **9.** | O'r ymateb i'r canllawiau statudol hyd yma, a ydych chi'n credu y bydd y canllawiau'n adeiladu pontydd rhwng awdurdodau lleol ac addysgwyr yn y cartref? | Diben y canllawiau yw egluro gofynion presennol yn y gyfraith a helpu i sicrhau bod dull cyson ar draws yr holl awdurdodau lleol a sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i ddefnyddio'r gwasanaethau a'r budd-daliadau cyffredin sydd ar gael i blant a phobl ifanc mewn addysg prif ffrwd.<br><br>Wrth i'r canllawiau gael eu rhoi ar waith, rydym yn cydnabod yr angen am ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n weddill. |
| **10.** | Ydych chi'n teimlo y bydd gorfodi cyfarfodydd yn rhoi hwb i gydberthnasau cadarnhaol? | Fel yr amlinellir yn yr ymateb i Gwestiwn 2, mae rhieni'n rhydd i wrthod cyfarfod â'r awdurdod lleol, fodd bynnag, mae'n amheus a all awdurdod lleol asesu addasrwydd addysg yn rhesymol heb weld y plentyn a chyfathrebu ag ef. Mater i'r awdurdod lleol unigol yw hyn. (Gweler adran 4.21 o'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref). |

| | | |
|---|---|---|
| **11.** | O ystyried bod y llawlyfr yn dweud na ddylai tiwtoriaid gwrdd â phlant ar eu pen eu hunain, pa fesurau sydd ar waith i ddiogelu swyddogion awdurdodau lleol wrth gynnal cyfarfodydd, yn enwedig lle y gall cyfarfodydd fod yn cael eu cynnal am fod rhieni'n teimlo pwysau neu y bydd canlyniadau negyddol os na fyddant yn gwneud hynny, neu pan gall eu presenoldeb, cwestiynau neu'r straen a ddaw yn sgil canlyniadau i fethu eu “plesio” wneud i blant sydd ag ADY strancio, neu gael pwl treisgar o ymladd neu ffoi. | Bydd gan awdurdodau lleol eu systemau a'u prosesau eu hunain ar gyfer cyfarfod â theuluoedd a dysgwyr a fyddai'n diogelu'r swyddog o'r awdurdod lleol, y rhiant a'r dysgwr.<br><br>Mae'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd â dysgwyr ag ADY wedi'u hegluro o dan ymateb 5. |
| **12.** | A allant gyfarfod â phlant heb eu cyfweld? Eu gwylio mewn gwers, er enghraifft? | Mae Adran 2.26 o lawlyfr Llywodraeth Cymru ar gyfer addysgwyr o gartref yn amlinellu'r ffyrdd gwahanol y gallai rhieni ddarparu tystiolaeth. Dylai teuluoedd drafod darparu tystiolaeth gyda'u hawdurdod lleol. |
| **13.** | Pam mai Gorchymyn Mynychu'r Ysgol yw'r ymateb i bryderon addysgol ynghylch addysg yn y cartref pan fydd ysgolion yn cael help a chymorth i wella – onid gwasanaeth cymorth addysg yn y cartref fyddai'r opsiwn cyfatebol? | Disgwylir i'r awdurdod lleol wneud pob ymdrech resymol i roi help a/neu gymorth i'r teulu. Mae'r canllawiau'n egluro y dylai'r awdurdod lleol geisio cael y wybodaeth angenrheidiol ac ymgysylltu â'r teulu cyn rhoi Gorchymyn Mynychu'r Ysgol.<br><br>Yn yr achos hwn, cynnig o gymorth yw hwn ac nid yw'r rhieni dan unrhyw rwymedigaeth i'w dderbyn. |
| **Thema 3: Gwrthwynebu penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol** | | |
| **14.** | Mae awdurdodau lleol yn gwneud fel y mynnont. Maent yn creu eu hagenda eu hunain ac nid ydynt yn dilyn rheolau ac arferion gorau. Maent yn dweud celwydd, yn camgyfeirio ac yn camhysbysu. Pa ddiogelwch sydd i rieni mewn perthynas â hyn? | Annog arferion cyson rhwng pob awdurdod lleol yw un o nodau allweddol y canllawiau statudol newydd.<br><br>Mae'r Pecyn Cymorth Ehangach yn egluro'r cyfrifoldebau statudol presennol ar awdurdodau lleol, sef: -<br><br>• rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY os caiff ei hysbysu y gall fod gan y plentyn ADY |

| | | |
|---|---|---|
| | | • sicrhau bod gwasanaethau cwnsela yn cael eu darparu i ddysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref yn unol â'r cynnig sydd ar gael mewn ysgolion<br>• darparu mynediad i gymorth i ieuenctid<br>• darparu mynediad i gyngor gan Gyrfa Cymru<br><br>Fel yr amlinellir yn yr ymateb i gwestiwn 13, disgwylir i'r awdurdod lleol wneud pob ymdrech resymol i roi help a/neu gymorth i'r teulu. Gall hyn gynnwys rhoi gwybodaeth i'r rhieni am wasanaethau ataliol a, lle y bo'n briodol, rhoi cydsyniad rhieni i gael atgyfeiriad i'r gwasanaethau ataliol hynny sydd ar gael yn lleol.<br><br>Os bydd gan rieni unrhyw bryderon, cânt eu hannog i drafod y rhain â'r awdurdod lleol ac os byddant yn anfodlon o hyd, gall y rhieni ddilyn proses gwyno'r awdurdod lleol.<br><br>Gall y rhieni hefyd gyfeirio eu pryderon at swyddfa Comisiynydd Plant Cymru. Cysyllta – Comisiynydd Plant Cymru (www.complantcymru.org.uk) |
| 15. | Beth fydd yn digwydd pan fydd y rhiant a'r ALI yn anghytuno? Nid oes proses apelio na chraffu heblaw mynd drwy'r llysoedd. | Fel arfer dda, caiff awdurdodau lleol eu cynghori i adolygu eu holl weithdrefnau a'u harferion yn rheolaidd, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig ag addysg yn y cartref. Dylai sefydliadau addysg yn y cartref a rheini sy'n addysgu yn y cartref a'u plant fod yn rhan o'r broses adolygu. Bydd adolygiadau effeithiol, ynghyd â dulliau o fynd i'r afael ag unrhyw gwynion, yn helpu i feithrin a chynnal partneriaeth fwy effeithiol. |

| Thema 4: Cymwysterau / profiad / hyfforddiant swyddogion awdurdodau lleol | | |
| --- | --- | --- |
| **16.** | Pa gymwysterau a fydd gan swyddogion penderfyniadau awdurdodau lleol? Pa anableddau a hyfforddiant iechyd meddwl a roddir i swyddogion Addysg Ddewisol yn y Cartref awdurdodau lleol? Pa athroniaethau y bydd swyddogion Addysg Ddewisol yn y Cartref awdurdodau lleol wedi'u haddysgu ynddynt? | Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw penodi swyddogion sydd â'r sgiliau a'r profiadau angenrheidiol i ymgymryd â'r rôl hon, ac i ddarparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus.<br><br>Fodd bynnag, cafodd swyddogion awdurdodau lleol becyn hyfforddiant cyn rhoi canllawiau statudol newydd ar waith a oedd yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r athroniaethau, yr arddulliau dysgu a'r dulliau gweithredu gwahanol sy'n gysylltiedig ag addysg yn y cartref. Mae deunyddiau hyfforddi wedi'u hatodi, fel y cyfeiriwyd atynt yn yr ateb i gwestiynau 17/18. |
| **17.** | A ellir rhannu deunyddiau hyfforddi swyddogion Addysg Ddewisol yn y Cartref â'r gymuned addysg yn y cartref? | Mae'r pynciau a gwmpesir a'r ffeiliau PowerPoint perthnasol wedi'u cynnwys fel atodiad gyda'r ddogfen hon.<br><br>Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddwy seminar ar 28 Chwefror a 21 Mawrth 2023.<br><br>Diben y seminarau hyn oedd hysbysu awdurdodau lleol yng Nghymru y caiff canllawiau Addysg Ddewisol yn y Cartref eu cyhoeddi cyn hir ac i hwyluso trafodaeth ynghylch y canllawiau, cyfrifoldebau awdurdodau lleol ac i godi ymwybyddiaeth o arferion gorau ledled Cymru wrth weithio gydag addysgwyr yn y cartref.<br><br>Roedd y seminarau'n wirfoddol, a chymerodd pob awdurdod lleol yng Nghymru ran gyda rhai yn cyfrannu deunyddiau ac yn arwain elfennau o'r drafodaeth.<br><br>Cynhaliwyd y cyfarfodydd wrth i'r canllawiau drafft gael eu cadarnhau i'w cyhoeddi. Ffocws y sesiynau hyn oedd cyfrifoldebau awdurdodau lleol fel yr amlinellwyd ac ni chafwyd cyfle i drafod y drafft. |
| **18.** | A fyddai'r adran cystal â sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o adnoddau a chynnwys a ddefnyddir wrth hyfforddi cyflogeion awdurdodau lleol ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref yn gwbl weledol i'r cyhoedd fel y gallwn werthuso pa mor ddefnyddiol neu briodol oeddent? Mae'n ymddangos y byddai hyn yn arbennig o bwysig wrth feithrin ymddiriedaeth a chyfathrebu gan nad oedd yn ymddangos bod unrhyw addysgwyr yn y cartref yn rhan o'r broses o ddatblygu'r hyfforddiant hwn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gan gyfeirio'n benodol at y PowerPoint ar Sipsiwn, Roma a Theithwyr, rhoddodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru gyflwyniad ar astudiaethau academaidd ar gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac addysg yn y cartref. Diben y cyflwyniad oedd tynnu sylw at y canlynol: -<br><br>• nad ffordd o fyw nomadaidd oedd sail y penderfyniad i addysgu yn y cartref bob amser<br>• yr amrywiaeth o ran arferion yn yr awdurdodau lleol a ymatebodd yn Lloegr<br>• yr angen i swyddogion Addysg Ddewisol yn y Cartref awdurdodau lleol gydgysylltu â'r gwasanaeth lleol i deithwyr<br>• bod argymhellion yr adroddiad hwn yn fwy eang o lawer na'r darpar ganllawiau ar Addysg Ddewisol yn y Cartref<br><br>Yn dilyn y cyflwyniad hwn, aeth un o swyddogion awdurdod lleol o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr sydd â phrofiad o addysg yn y cartref ati i rannu ei brofiadau ac i roi cyngor i gydweithwyr wrth asesu addasrwydd addysg yn y cartref a rhyngweithio â'r cymunedau hyn. |
| **18.** | Pa brofiad uniongyrchol o addysg yn y cartref sydd gan *staff Llywodraeth Cymru*, sy'n eu galluogi i hyfforddi eraill? | Mae gweision sifil yn ddiduedd, ac nid safbwyntiau personol yw'r cynigion na'r polisïau. Mae gan staff Llywodraeth Cymru brofiad yn datblygu polisïau ac yn rhoi cyngor i weinidogion ar amrywiaeth o feysydd, wedi'u llywio gan unigolion sydd â diddordeb allweddol neu brofiad penodol.<br><br>Mae'r swyddog o Lywodraeth Cymru a gynhaliodd yr hyfforddiant a roddwyd i staff awdurdodau lleol yn swyddog awdurdod lleol profiadol ar secondiad sydd â phrofiad o gefnogi teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref ac sy'n ymwybodol o'r ffactorau a all gyfrannu at benderfyniad rhiant i addysgu yn y cartref.<br><br>Cefnogwyd yr hyfforddiant gan swyddogion awdurdod lleol presennol sy'n gweithio yn y maes hwn drwy roi cyflwyniadau perthnasol gan gynnwys |

Tudalen y pecyn 67

| | | |
|---|---|---|
| | | cymhwysiad cyffredinol y canllawiau statudol i gyflawni dyletswyddau statudol awdurdodau lleol, mewn meysydd penodol (e.e., dulliau athronyddol i addysg addas ac effeithlon (yn unol â'r canllawiau), polisi Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac ADY). |
| **19.** | Ai disgresiwn swyddog penodol yw p'un a yw o'r farn bod tystiolaeth yn addas? Mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr rhwng pobl gefnogol ac empathetig i ddiwylliant o ddrwgdeimlad ac amheuaeth mewn awdurdod lleol arall. | Prif ddiben y canllawiau statudol yw hyrwyddo cysondeb ledled Cymru ac mae adrannau 4.1 i 4.18 o'r canllawiau'n rhoi arweiniad clir i swyddogion awdurdodau lleol. |
| **Thema 5: Cyfrifoldebau / rolau awdurdodau lleol / Llywodraeth Cymru a gwerthusiad o'r canllawiau** | | |
| **20.** | Sut y gellir sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau lleol? Rydym eisoes yn gweld nad yw hyn yn digwydd mewn sawl maes. | Roedd sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau lleol yn un o'r ffactorau ysgogi allweddol ar gyfer cyflwyno canllawiau statudol. Fodd bynnag, awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am roi'r ddeddfwriaeth ar waith a sicrhau eu bod yn dilyn y canllawiau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gadeirio'r Grŵp Llywio Cenedlaethol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref i hwyluso trafodaeth â swyddogion awdurdodau lleol mewn perthynas â'r broses o roi'r polisïau ar waith |
| **21.** | Cyn i ni orffen heddiw, a allwch gadarnhau: eich bod yn deall mai dyletswydd awdurdodau lleol yw adnabod plant sy'n colli addysg yn unig, ac mai cyfrifoldeb y rhieni yw penderfynu ar addasrwydd addysg. mai rôl awdurdodau lleol yw cefnogi, nid beirniadu, asesu a monitro. ac nad yw plant a addysgir gan y Wladwriaeth yn blentyn sy'n colli addysg am nad yw ei addysg yn addas.<br><br>Cwestiynau tebyg a ddaeth i law dros e-bost y tu allan i'r sesiynau ymgysylltu: Yn y cyfarfodydd diweddar a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru, honnodd | Yr awdurdod addysg sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol i benderfynu ar addasrwydd yr addysg, nid y rhiant. Mae'r sail gyfreithiol ar gyfer hyn wedi'i nodi'n fanylach o dan gwestiynau 5 a 6.<br><br>Hyd nes bydd yr awdurdod lleol wedi cael sicrwydd bod plentyn a addysgir yn y cartref yn cael addysg addas, mae'n bosibl y bydd y plentyn wedi'i gwmpasu o dan ddyletswydd adran 436A a bydd canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar blant sy'n colli addysg yn gymwys (Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg \| LLYW.CYMRU ). |

| | | |
|---|---|---|
| | Llywodraeth Cymru mai rôl awdurdodau lleol oedd penderfynu ar b'un a yw addysg plentyn yn addas, nid y rhieni. A fyddech cystal â nodi'r sail gyfreithiol ar gyfer honiad o'r fath os credir bod hyn yn wir, gan mai cyfrifoldeb rhieni, nid yr awdurdodau, yw addysg. | |
| **22.** | Pa fesurau y byddwch yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod yr hyn rydych yn ei ddweud yma heddiw'n cael ei gyflawni gan awdurdodau lleol er mwyn sicrhau na fydd y sefyllfaoedd y sonnir amdanynt yma yn codi? | Bydd gwerthusiad annibynnol o'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn dechrau ym mis Mai 2024. Bydd y gwerthusiad yn adolygu'r effaith y mae'r canllawiau wedi'u cael wrth gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau statudol.  Mae gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru grŵp llywio ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref, lle gellir trafod effaith polisïau ac eir i'r afael ag unrhyw fater yn rheolaidd.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gadeirio'r Grŵp Llywio Cenedlaethol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref i hwyluso trafodaeth â swyddogion awdurdodau lleol mewn perthynas â'r broses o roi'r polisïau ar waith. |
| **23.** | A fyddwch yn sicrhau y caiff pob awdurdod lleol ei hysbysu NAD yw'r cyfarfodydd yn orfodol ac felly na ellir defnyddio'r ffaith y gwrthodwyd cyfarfod i roi Gorchymyn Mynychu'r Ysgol. | Mae Adran 4.21 o ganllawiau statudol Addysg Ddewisol yn y Cartref yn cydnabod y gall rhiant neu blentyn elfen Gillick wrthod cyfarfod â'r awdurdod lleol. Er bod rhieni'n rhydd i wrthod cyfarfod â'r awdurdod lleol, mae'n amheus a all awdurdod lleol asesu addasrwydd addysg yn rhesymol heb weld y plentyn a chyfathrebu ag ef. Mater i'r awdurdod lleol unigol yw'r penderfyniad hwn. |
| **24.** | Ond gwerthuso pryd? Nid wyf yn cofio os mai blwyddyn neu ddwy ydoedd, a gall teuluoedd deimlo eu bod yn cael eu herlid. Mae'n siŵr bod y rheini sy'n atgynhyrchu'r ysgol gartref yn llai pryderus, ond mewn sawl achos, bydd y rheini nad ydynt yn gwneud hynny yn rhy ofnus i fynd i'r cyfarfodydd hyn. | |
| **Thema 6: Gweithio mewn partneriaeth** | | |
| **25.** | Sut mae awdurdodau lleol yn gweithio'n benodol gyda sefydliadau iechyd a sefydliadau eraill sy'n arbenigo | Bydd rhiant neu warcheidwad sy'n dewis addysgu yn y cartref yn eithrio o ddarpariaeth addysg y wladwriaeth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu ei |

| | | |
|---|---|---|
| | mewn cefnogi teuluoedd sy'n wynebu amrywiaeth o heriau o ganlyniad i “gyflyrau” y gallant fod wedi neu heb gael diagnosis ar eu cyfer. Yr hyn rwy'n ei feddwl yw nifer y teuluoedd sy'n rhieni i blant niwro amrywiol neu sydd ag anghenion iechyd meddwl, a fyddai'n mynd yn bryderus iawn oherwydd natur y cyfarfod er enghraifft. Sut mae awdurdodau lleol yn paratoi eu hunain i feithrin y ddealltwriaeth hon? Mae hon yn her i ysgolion ynghyd â pham y mae nifer o deuluoedd yn dewis tynnu eu plant allan. Sut y bydd awdurdodau lleol yn paratoi eu hunain i feithrin dealltwriaeth mor arbenigol? Rwyf wedi bod yn rheolwr gyda Darpariaeth yr Awdurdod Lleol o Gymorth Teuluol a Lles Addysg ac rwyf bellach yn gweithio'n breifat fel therapydd gyda nifer o deuluoedd y mae anhyblygrwydd systemau wedi effeithio arnynt oherwydd eu bod yn achosi gorbryder difrifol sy'n niweidiol i blant a rhieni/gofalwyr. | fod yn eithrio o wasanaethau iechyd y wladwriaeth. Mae gan blant a addysgir yn y cartref hawl i fanteisio ar wasanaethau iechyd a gynigir drwy ysgolion fel arfer.<br><br>Mae cwnsela ar gyfer dysgwyr a addysgir yn y cartref ar gael ar-lein gyda'r ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n mynd i'r ysgol. Cytunwyd ar hyn ac mae wedi'i gynnwys yn ein Pecyn Cymorth Ehangach.<br><br>Lle mae gan ddysgwyr anghenion a nodir, disgwylir y bydd swyddogion addysg yn y cartref yn gweithio'n agos gydag adrannau eraill yn yr awdurdod lleol, fel y gwasanaeth lles addysg, anghenion dysgu ychwanegol i gefnogi plant a addysgir yn y cartref a disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn gwneud pob ymdrech resymol i roi help/cefnogaeth i'r teulu. Yn aml, gall hyn gynnwys gweithio gyda gwasanaethau eraill awdurdodau lleol a chyfeirio teuluoedd at asiantaethau priodol. |

| **Thema 7: Tystiolaeth o addysg addas** | | |
|---|---|---|
| **26.** | Pa fath o dystiolaeth yr hoffai awdurdodau lleol ei gweld? | Cyfeirir at enghreifftiau o dystiolaeth yn y Llawlyfr yn adrannau 2.25 a 2.26, sef:<br><br>• anfon gwybodaeth drwy e-bost fel atodiad<br>• bod eich plentyn yn dangos rhywfaint o'i waith neu’n sôn am yr hyn mae'n ei ddysgu<br>• gwaith gwreiddiol<br>• llungopïau o waith ysgrifenedig<br>• ffotograffau<br>• gwaith celf<br>• llyfrau lloffion |

| | | |
|---|---|---|
| | | • cyflawniadau cerddorol ac ym maes chwaraeon (tystysgrifau)<br>• dyddiadur digwyddiadau<br>• recordiadau ar gryno ddisg<br>• defnyddio'r cyfryngau digidol<br>• gwefannau a grëwyd gan eich teulu, neu wefannau y mae eich teulu wedi cyfrannu atynt<br>• adroddiad ysgrifenedig |
| **27.** | A allwch amlinellu sut beth yr hoffech i “flwyddyn ysgol nodweddiadol” fod o ran y gydberthynas/cyfathrebu rhwng teulu a swyddogion awdurdodau lleol/Addysg Ddewisol yn y Cartref? | Mae'r canllawiau'n glir y dylid cynnal cyfarfod rhwng y teulu a'r awdurdod lleol o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn sicrhau y cynhelir addasrwydd yr addysg ac yr ystyrir bod y plentyn yn gwneud cynnydd addas.<br><br>Fodd bynnag, dylai amlder y cyfarfodydd â theuluoedd a addysgir yn y cartref fod yn gymesur ac yn seiliedig ar amgylchiadau unigol pob plentyn.<br><br>Os oes gan yr awdurdod lleol bryderon ynghylch addasrwydd yr addysg, bydd angen iddo ystyried a yw am weld y teulu'n amlach er mwyn cael sicrwydd bod y plentyn yn cael addysg addas.<br><br>Gall fod angen i'r awdurdod lleol gysylltu â phartneriaid perthnasol eraill i'r awdurdod lleol yn dibynnu ar amgylchiadau'r plentyn wrth benderfynu ar amlder cyfarfodydd â'r teulu.<br><br>Heblaw am hyn, byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol gyfathrebu'n aml â theuluoedd er mwyn rhannu gwybodaeth, eu cyfeirio at wasanaethau ac ymateb i unrhyw ymholiadau y gall fod gan deuluoedd. |
| **28.** | Sut y gall awdurdodau lleol werthuso “tystiolaeth” mor amrywiol ac eang? Mae'n ymddangos fel tasg amhosibl heb roi meini prawf ar waith, ac nid ydym am wneud hynny, ond yna mae'n dibynnu ar sail unigol. | Awdurdodau lleol sydd i benderfynu, o'r wybodaeth a gyflwynir gan rieni, a yw gwybodaeth addas ac effeithiol yn cael ei darparu ac mae'r canllawiau statudol yn eu cefnogi i wneud hynny. Mae'r llawlyfr Addysg Ddewisol yn y Cartref yn rhoi enghreifftiau o sut i ddangos tystiolaeth o ddarpariaeth addysgol foddhaol, er mwyn helpu i sicrhau mwy o gysondeb rhwng awdurdodau lleol. Ceir rhagor o fanylion yng nghwestiwn 26. |

| | | |
|---|---|---|
| **29.** | Pwy sy'n penderfynu ar lefel y rhifedd, llythrennedd, iaith. | Fel yr amlinellir yn adran 3.9 o'r llawlyfr Addysg Ddewisol yn y Cartref, dylai addysg addas roi profiad ieithyddol, mathemategol, gwyddonol, technolegol, dynol a chymdeithasol, corfforol ac esthetig a chreadigol i blant; ynghyd â phrofiad o siarad a gwrando, a sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol.<br><br>Ni waeth pa ddull a gymerir i ddarparu addysg addas, mae'n bwysig i awdurdodau lleol ystyried a yw'r dull yn addas i anghenion y plentyn unigol sy'n golygu addysg effeithlon sy'n addas i oedran, gallu a dawn y plentyn ac unrhyw AAA/ADY y gall fod gan y plentyn. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei ddiffinio yn ôl nifer yr oriau na safon benodol heblaw nodi bod yn rhaid i'r ddarpariaeth gyfateb i allu cyffredinol y plentyn (gan gynnwys unrhyw AAA/ADY y gall fod ganddo) a galluogi'r plentyn i feithrin: sgiliau gwrando a siarad, sgiliau darllen sy'n cynnwys geirfa a darllen a deall; a sgiliau ysgrifennu sy'n cynnwys gramadeg, atalnodi a sillafu. Swyddogion awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am asesu addasrwydd y ddarpariaeth hon ar y cyd ag elfennau eraill o addysg y plentyn. |
| **Thema 8: Cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref / cyllid i awdurdodau lleol** | | |
| **30.** | O ran cymorth, beth sydd ar gael a ble y gallaf fynd i'w gael? Mae fy mab yn cael ei addysgu yn y cartref o ganlyniad i frwydr hir llawn straen â'r ysgol / CAHMS / swyddog addysg a chafodd ei gynghori i gael ei addysgu yn y cartref oherwydd ffobia o'r ysgol. | Lle y nodwyd bod teulu'n addysgu yn y cartref, gall yr awdurdod lleol sicrhau bod cymorth a chyngor ar gael pan fydd hynny'n briodol, os bydd y teulu'n dymuno. Dylai teuluoedd drafod unrhyw geisiadau am gymorth â'r swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref yn yr awdurdod lleol yn y lle cyntaf. |
| **31.** | A ellir cynnig cymorth yn effeithiol drwy'r un bobl sydd hefyd yn barnu'r ddarpariaeth? Cymharwch hyn â'r gwahaniaeth rhwng cynghorwyr gwella ysgolion a dyfarniadau Estyn ar gyfer ysgolion. | Mae'n debygol mai swyddogion Addysg Ddewisol yn y Cartref yw'r unigolion sydd â'r gydberthynas agosaf â'r teulu ac, felly, byddent mewn sefyllfa well i ystyried yr addysg a ddarperir yn gyfannol a thros amser. |
| **32.** | | |

| | | |
|---|---|---|
| | Faint o gynigion o bethau fel CADW a chwnsela oedd ar gael beth bynnag cyn y canllawiau hyn? Os felly, pam y mae'r canllawiau'n portreadu'r rhain fel ffyrdd newydd o “gefnogi”? | Er bod sawl agwedd ar y Pecyn Cymorth Ehangach eisoes ar gael, nid oeddent ar gael yn gyson i bob dysgwr.<br><br>Drwy gyfeirio at y rhain yn y canllawiau statudol yn sicrhau gwell cysondeb o'r cynnig sydd ar gael i ddysgwyr a'u teuluoedd. |
| **33.** | Adnoddau sydd eisoes ar gael i ni yw'r hyn a ddarperir yn y pecyn cymorth yn bennaf. Rydym yn gallu manteisio ar Gyrfa Cymru a llyfrgelloedd eisoes ond rydym yn cael trafferth defnyddio canolfannau arholiadau. Pam rydych yn rhestru mynediad i adnoddau sydd eisoes ar gael i ni? | |
| **34.** | A fydd cyllid gwell ar gyfer timau AALl lleol? Mae ein tîm ni dan bwysau mawr ac yn brin o adnoddau, sy'n golygu na all ddarparu'r cymorth y gall fod yn ofynnol i'w roi i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. | Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau statudol.<br><br>Fodd bynnag, er mwyn cefnogi'r broses o roi'r canllawiau ar Addysg Ddewisol yn y Cartref ar waith, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol dros gyfnod o dair blynedd i'w cefnogi i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas ag addysg yn y cartref. |
| **35.** | Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion sy'n gysylltiedig â diogelu wrth gyhoeddi'r canllawiau hyn ond mae wedi anwybyddu argymhellion ariannol eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr un adroddiadau. Yn aml, bydd Jeremy Miles yn awgrymu bod addysgwyr yn y cartref yn cael pecyn cymorth sy'n cyfateb i 1.7 miliwn o bunnoedd. Mae hyn yn gamarweiniol am ei fod wedi cadarnhau mewn ateb i gwestiwn ysgrifenedig bod 1.1 miliwn i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau a bod y 600 mil sy'n weddill yn cael ei rannu rhwng teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref ledled Cymru gyfan. Mae hyn yn cyfateb i tua £120 y teulu, tua £3 yr wythnos pan fydd yn seiliedig ar flwyddyn academaidd o 38 wythnos, sy'n llai o lawer na chost prydau ysgol ar gyfer un plentyn am un | Rhaid i rieni sy'n dewis addysgu eu plant yn y cartref fod yn barod i gymryd cyfrifoldeb ariannol llawn dros addysg eu plant. Fodd bynnag, caiff awdurdodau lleol eu hannog i ddarparu cymorth pan fydd adnoddau'n caniatáu.<br><br>Mae'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol i gefnogi teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn unigryw yn y DU. |

| | | |
|---|---|---|
| | wythnos. Pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad o gymorth ariannol cyfartal i blant a addysgir yn y cartref a phlant a addysgir gan y wladwriaeth? | |
| **Thema 9: Tystiolaeth ynghylch addysg yn y cartref** | | |
| **36.** | Mae addysg yn y cartref wedi bod yn gyfreithlon yn y DU ers 50 mlynedd. Pam nad oes astudiaeth erioed wedi'i chomisiynu i addysg yn y cartref? | Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y pwynt hwn. Nododd y Gweinidog ei fwriad i werthuso canllawiau statudol a bydd gwerthusiad a gomisiynwyd yn dechrau yn nhymor yr haf 2024 a fydd yn neilltuo amser i'r canllawiau hyn gael eu rhoi ar waith gan awdurdodau lleol. |
| **37.** | Beth yw'r dystiolaeth i gefnogi'r cynigion h.y. pam ei gwneud yn ddeddfwriaeth nid yn gyngor? | Mae'r broses hon o ddatblygu canllawiau statudol yn ymateb uniongyrchol i bryderon a godwyd yn flaenorol gan Gomisiynydd Plant Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, y mae Llywodraeth Cymru wedi galw ar y ddau i wella eu canllawiau ar Addysg Ddewisol yn y Cartref. |
| **Thema 10: ADY** | | |
| **38.** | Beth yw sefyllfa rhiant os nad yw am i'r awdurdod lleol labelu ei blentyn ag ADY? A ellir trafod label ADY? | Mae'r un dyletswyddau'n gymwys i awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant sydd ag ADY ni waeth sut maent yn derbyn eu haddysg. Mae adran 2.13 o'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn nodi "Pan gaiff ei ddwyn i sylw awdurdod lleol neu pan fo'n ymddangos fel arall i awdurdod lleol y gallai plentyn y mae'n gyfrifol amdano ac sy'n derbyn addysg yn y cartref (ac eithrio plentyn sy'n derbyn gofal), fod ag ADY, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio ac, os yw'n penderfynu bod gan y plentyn ADY, rhaid iddo lunio a chynnal CDU a sicrhau'r ddarpariaeth addysg ychwanegol (DDdY) a ddisgrifir yn y cynllun hwnnw".<br><br>Gall plant, eu rhieni a phobl ifanc herio penderfyniadau a wneir gan ysgol, UCD, awdurdod lleol neu goleg ynghylch ADY os bydd yn anghytuno â |

Tudalen y pecyn 74

| | | |
|---|---|---|
| | | nhw. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY. Ceir rhagor o wybodaeth am herio penderfyniadau am ADY a wneir gan awdurdodau lleol yn Canllaw i rieni am hawliau o dan y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) [HTML] \| LLYW.CYMRU. |

| **Thema 11: Arholiadau** | | |
|---|---|---|
| **39** | A fydd yr hysbyseb am swyddog cymorth arholiadau yn cael ei chyhoeddi ar wefannau awdurdodau lleol? | Mater i awdurdodau lleol unigol yw hyn. Byddem yn awgrymu y dylai teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref gysylltu â'u swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref lleol i gael cyngor. Mae Adran 6.14 o'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn nodi mai “Cyfrifoldeb yr addysgwr yn y cartref fydd cysylltu â'r awdurdod lleol a holi ynghylch y ffordd benodol iawn y byddant yn ymdrin ag ymgeiswyr preifat.” |
| **40** | Mae'r ddarpariaeth arholiadau yn ein hardal ni o Gymru yn brin iawn. Nid yw bwrdd CBAC ar gael i addysgwyr yn y cartref. Hefyd, ni all addysgwyr yn y cartref sefyll arholiadau CBAC oherwydd yr elfen gwaith cwrs. Mae hyn hefyd yn debygol o waethygu gyda'r diwygiadau sydd dan ystyriaeth i arholiadau CBAC, gyda phob arholiad heblaw Mathemateg yn debygol o gynnwys elfennau Asesiad Diarholiad sylweddol. Mae'r trefniadau mynediad i ymgeiswyr nad ydynt wedi'u lleoli mewn ysgol yn faes pwysig arall y mae angen ei gefnogi er mwyn sicrhau mynediad teg i arholiadau. | |
| **41.** | Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi y darperir cyfleoedd cyfartal a chymorth ymarferol i addysgwyr yn y cartref. Eto, ers i Lywodraeth Cymru gael ei chynnwys, mae'r ddarpariaeth canolfannau arholiadau wedi gwaethygu'n fawr. Pam? | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i alluogi teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref i gael mynediad i arholiadau CBAC mewn canolfan arholiadau a nodir.<br><br>Mae pob awdurdod lleol wedi cytuno i dderbyn ymgeiswyr annibynnol o deuluoedd a addysgir yn y cartref mewn canolfan arholiadau a nodir.<br><br>Dylid annog colegau addysg bellach hefyd i agor eu cyfleusterau i blant a addysgir yn y cartref ar gyfer arholiadau.<br><br>Lle y bo'n bosibl, dylai awdurdodau lleol gyfeirio teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref at ysgolion a chanolfannau a fydd yn gadael i fyfyrwyr allanol sefyll arholiadau. Caiff swyddogion addysg yn y cartref eu hannog i weithio gyda darparwyr canolfannau arholiadau a nodir yn eu hawdurdod lleol i groesawu plant a addysgir yn y cartref pan fo hynny'n bosibl.<br><br>Cyfrifoldeb yr addysgwr yn y cartref fydd cysylltu â'r awdurdod lleol a holi ynghylch y ffordd benodol iawn y byddant yn ymdrin ag ymgeiswyr preifat. |
| **42.** | Byddai o gymorth mawr pe na fyddai mynediad i ganolfannau arholiadau wedi'i gyfyngu i un bwrdd arholi. Er enghraifft, efallai y byddwn yn dilyn TGAU Rhyngwladol oherwydd gofynion gwaith cwrs, neu'n defnyddio byrddau arholi yn Lloegr am ein bod yn cael tiwtora ar-lein. Rwy'n gwerthfawrogi bod awdurdodau lleol yn wynebu pwysau mawr, ond byddai'r manteision i rieni a phlant yn anferth yn fy marn i, o gymharu â'r gost i awdurdodau lleol. | |
| **43.** | Siawns mai'r ysgolion sy'n dewis, nid yr awdurdodau lleol? Mae ysgolion annibynnol wedi mynd yn gyndyn o dderbyn pobl ifanc a addysgir yn y cartref ar gyfer arholiadau am fod y galw'n uchel ac na allant gwmpasu gofynion AAA. | |
| **44.** | A gaiff costau'r arholiadau eu cwmpasu, neu dim ond darpariaeth canolfan leol? | Mater i'r awdurdodau lleol yw hyn. |
| **45.** | A allwn drafod materion sy'n ymwneud ag arholiadau gyda chi ymhellach am fod materion y mae angen eu hegluro na ellir eu hateb heddiw? | Os oes rhagor o ymholiadau mewn perthynas â'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref ac arholiadau nad yw'r ymatebion i'r cwestiynau yn yr adran hon wedi'u hegluro, yna gall unigolion gysylltu â Llywodraeth Cymru yn:<br>ElectiveHomeEducation@gov.wales.<br><br>Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ateb cwestiynau mewn perthynas â mynediad i ganolfannau arholiadau. Cysylltwch â'ch Swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref am ragor o wybodaeth. |

| Thema 12: Mwy o fewnbwn ac ymgysylltiad | | |
|---|---|---|
| **46.** | Yn y dyfodol, sut y bydd Llywodraeth Cymru'n parhau'r ddeialog â'r gymuned? | Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i ymgysylltu â phob rhanddeiliad wrth i ni roi'r canllawiau statudol ar waith. Rydym wrthi'n ystyried beth yw'r ffordd orau o hwyluso rhagor o ymgysylltu a thrafod â phob rhanddeiliad, gan gynnwys y gymuned sy'n addysgu yn y cartref. |
| **47.** | Ymatebodd y gymuned i ymgynghoriadau ar addysg yn y cartref ac mae wedi ceisio ymgysylltu â Llywodraeth Cymru dro ar ôl tro. A fydd unrhyw beth a gaiff ei drafod yn y cyfarfodydd hyn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y bydd yr adran addysg yn gweithio gyda'r gymuned yn y dyfodol? | |
| **48.** | A all y gymuned roi mewnbwn i'r llawlyfr? Mae llawer o wallau, gwybodaeth sydd wedi dyddio ac ati, a byddai'n werth cael llawlyfr sy'n berthnasol. | Byddai Llywodraeth Cymru'n croesawu adborth adeiladol ar y llawlyfr i sicrhau y gallwn adeiladu ar yr adnodd hwn a'i wneud mor ddefnyddiol a pherthnasol â phosibl i bob aelod o'r gymuned sy'n addysgu yn y cartref. Mae'r ffyrdd y gallwn hwyluso hyn wrthi'n cael eu hystyried, fel rhan o ymgysylltu ehangach a pharhaus.<br><br>Os oes agweddau penodol ar y llawlyfr yr ystyrir eu bod yn anghywir, yna gellir rhannu'r adborth hwn â'r tîm ar ElectiveHomeEducation@gov.wales, fel y gallwn eu hunioni cyn gynted â phosibl. |

| Thema 13: Llais addysgwyr yn y cartref | | |
|---|---|---|
| **49.** | A oes cynrychiolaeth o addysgwyr yn y cartref ar grwpiau llywio awdurdodau lleol? A ellid ystyried hyn ar sail reolaidd? | Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynrychiolaeth o addysgwyr yn y cartref ar grŵp llywio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Addysg Ddewisol yn y Cartref am mai diben y grŵp hwn yw sicrhau mwy o gysondeb wrth roi'r canllawiau statudol ar waith. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gadeirio'r Grŵp Llywio Cenedlaethol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref i hwyluso trafodaeth â swyddogion awdurdodau lleol mewn perthynas â'r broses o roi'r polisïau ar waith<br><br>Fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i gwestiwn 46, rydym wrthi'n ystyried y ffordd orau o hwyluso mewnbwn ac ymgysylltiad parhaus gan y gymuned addysgu yn y cartref. |
| **50.** | A ydych chi'n ystyried bod y canllawiau newydd hyn wedi'u llunio'n llwyr ar y cyd ag addysgwyr yn y cartref? A oes addysgwyr yn y cartref wedi cael eu cynnwys ar bob cam? | Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn ar y canllawiau statudol yn ystod 2019, a oedd yn cynnwys cyfleoedd i ymgysylltu wyneb yn wyneb. Ystyriodd Llywodraeth Cymru ymatebion a safbwyntiau pob rhanddeiliad cyn cadarnhau'r canllawiau, fodd bynnag, cafodd pob safbwynt ei gydbwyso yn erbyn prif nod polisi'r canllawiau statudol i gefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg addas ac effeithlon. |

Tudalen y pecyn 78

| **Thema 14: Llais plant a phobl ifanc** | | |
|---|---|---|
| **51.** | Beth am sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed gan y bobl sy'n gwneud penderfyniadau? | Roedd ymgynghoriad 2019 yn cynnwys fersiwn Person Ifanc o'r Canllawiau a'r Llawlyfr. Hefyd, hwylusodd Llywodraeth Cymru sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb, a roddodd gyfle i blant a phobl ifanc rannu eu safbwyntiau. |
| **52.** | Pa mor aml y gofynnir i blant yn yr ysgol 'A fyddai'n well gennych chi gael eich addysgu yn y cartref?' Nid yw'r cwestiwn hwn byth yn cael ei ofyn. Nid ysgol yw addysg yn y cartref. Caiff ysgolion eu harolygu fel gwasanaethau a gomisiynir gan y Llywodraeth sy'n atebol i'w cyllidwyr (y Llywodraeth) a defnyddwyr eu gwasanaethau (rhieni). | A oes cyfleoedd sylweddol i bob plentyn mewn ysgolion a gynhelir i leisio ei farn; mae hyn wedi'i ymgorffori'n sylweddol o fewn system ysgolion. Mae hyn yn cynnwys Cynghorau Ysgolion, sydd wedi'u hategu gan reoliadau. Hefyd, mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt, gan gynnwys yn yr ysgol. Mae llais y dysgwr hefyd wedi'i ymgorffori yn y Cwricwlwm newydd i Gymru a Chenhadaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'u phrosesau |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnwyd y cwestiynau tebyg canlynol mewn ymateb:<br><br>A yw'r awdurdod lleol yn gwrando ar bryderon pob plentyn ysgol unigol? Nac ydi siŵr; felly pam mynnu bod yr awdurdod lleol yn cyfweld â'n plant? Gofynnwyd y cwestiwn sawl gwaith gan sawl teulu sy'n addysgu yn y cartref ac ni chawsom ymateb digon da, os o gwbl.<br><br>A allaf ofyn i'r Gweinidog Addysg a yw'n bwriadu gwneud hyn ym mhob ysgol yng Nghymru hefyd? A fydd yn holi pob plentyn yng Nghymru am ei addysg gan gynnwys y rheini sy'n mynd i'r ysgol? | arolygu statudol, bydd Estyn hefyd yn casglu safbwyntiau disgyblion drwy holiadur cyn arolygu ysgolion a gall siarad â disgyblion, adolygu gwaith ac arsylwi ar wersi.<br><br>Bydd gweld plant a addysgir yn y cartref a chyfathrebu â nhw yn sicrhau dull o sicrhau bod lleisiau plant a addysgir yn y cartref yn cael eu clywed. Ceir eglurhad ar weld y plentyn yn yr ymatebion i gwestiynau 2, 3 a 5. |
| **53.** | O ran bod cynghorau ysgolion yn cael eu defnyddio i brofi bod safbwyntiau'r plant yn cael eu clywed, nid yw hyn yn casglu barn pob un plentyn ar yr addysg a ddarperir iddo. Felly a allwn gael cyngor o blant a addysgir yn y cartref yn hytrach na phob plentyn er mwyn cyd-fynd ag ysgolion? | Fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i gwestiwn 46, rydym wrthi'n ystyried y ffordd orau o hwyluso mewnbwn ac ymgysylltiad parhaus gan y gymuned addysgu yn y cartref. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut i gael safbwyntiau plant a addysgir yn y cartref. |
| **54.** | Rwy'n gwybod am blant sy'n anhapus yn yr ysgol ac a fyddai'n hoffi cael eu haddysgu yn y cartref. A fyddwch yn cynnig gwasanaethau cyfryngu i'r teuluoedd hynny i'w helpu i ddarparu addysg yn y cartref? | Er bod rhieni'n rhydd i ddewis a ydynt am addysgu eu plentyn yn y cartref ai peidio, mae'n bwysig bod penderfyniad y rhiant i addysgu yn y cartref yn ddewis cadarnhaol ac nad yw o ganlyniad i fethiannau canfyddedig yn system yr ysgol, na phrofiadau negyddol ag ysgol benodol. Byddem bob amser yn annog teuluoedd i weithio gyda'u hysgol a'u hawdurdod lleol i ddatrys unrhyw faterion, er mwyn sicrhau y gellir rhoi cymorth priodol ar waith i'r plant. |
| **Thema 15: CCUHP** | | |
| **55.** | Pam na chaiff erthyglau 5, 14, 16 a 18 o'r CCUHP eu cynnwys yn y canllawiau? Mae'r erthyglau hyn yn | Mae hawliau plant wedi'u cynnwys yng nghyfraith Cymru o dan 'Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)' |

| | | |
|---|---|---|
| | cyfeirio at bartïon gwladwriaethau yn parchu rhieni, parchu preifatrwydd ac mae Erthygl 18 yn nodi mai rhieni sy'n bennaf cyfrifol am fagu'r plentyn a'i ddatblygiad. Sut mae'r canllawiau'n cyd-fynd â'r erthyglau hyn? | Er bod Llywodraeth Cymru'n rhoi ystyriaeth ddyledus i bob gofyniad, mae pedair egwyddor gyffredinol yn y CCUHP, gan gynnwys Erthygl 12 (parch i safbwyntiau plant).<br><br>Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i roi sylw priodol i bob erthygl yn y CCUHP, gan eu cydbwyso yn erbyn yr holl ffactorau perthnasol eraill. |
| **56.** | Mae hawliau dynol y plentyn wedi'u dyfynnu yn neddfwriaeth Cymru. A gaiff hawl fy mhlentyn i beidio â mynd i gyfarfod ac i beidio â chydymffurfio â Gorchymyn Mynychu'r Ysgol eu parchu? | Ceir eglurhad ar weld y plentyn yn yr ymatebion i gwestiynau 2, 3 a 5. |
| **Thema 16: Asesiadau effaith** | | |
| **57.** | Pam na chafodd asesiad effaith reoleiddiol, asesiad o'r effaith ar ddiogelu data neu asesiad o'r effaith ar hawliau plant cyfredol eu cyhoeddi cyn i'r canllawiau gael eu rhyddhau? Addawodd Kirsty Williams yr asesiadau hyn i'r gymuned mewn datganiad ysgrifenedig. | Cynhaliwyd asesiad effaith integredig, sy'n cynnwys asesiad o'r effaith ar hawliau plant, ar y canllawiau statudol, a gellir ei weld yma. Mae'r Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd o dan y llywodraeth flaenorol yn cyfeirio at y prosesau a'r asesiadau a fyddai'n cael eu cynnal cyn i'r rheoliadau cronfa ddata gael eu rhoi ar waith. Oherwydd y bydd angen rheoliadau data ar y cronfeydd data, mae asesiad effaith rheoliadol ac asesiad o'r effaith ar ddiogelu data wrthi'n cael eu datblygu ochr yn ochr â'r gwaith polisi hwnnw. Mae'r datganiad y cyfeirir ato yn y cwestiwn wedi'i gynnwys yn y ddolen ganlynol:<br><br>1. Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Cronfa Ddata Addysg Deddf Plant 2004 (Cymru) 2020 a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020 (11 Rhagfyr 2019 \| LLYW.CYMRU |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio – Gwelliannau Prynu Gorfodol – Gwerth Gobeithiol ac Iawndal** |
| **DYDDIAD** | **18 Awst 2023** |
| **GAN** | **Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd** |

Caiff y datganiad ysgrifenedig hwn ei osod o dan Reol Sefydlog 30 – Hysbysu mewn perthynas â Biliau Senedd y DU. Mae'n ymwneud â Gwelliant 412D[1] Llywodraeth y DU, a gyflwynwyd ar 13 Mawrth 2023 yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, yn y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio ("y Bil") a fydd yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru ond nid oes angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog 29, gan nad oes gan Senedd Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r ddarpariaeth gwelliant. Cyflwynwyd y Bil yn Senedd y DU, yn Nhŷ'r Cyffredin ar 11 Mai 2022.

Roedd cydsyniad deddfwriaethol y Senedd yn ofynnol ar gyfer darpariaethau eraill yn y Bil o ran cynllunio defnydd tir; adroddiadau canlyniadau amgylcheddol ar gyfer cydsyniadau penodol; gwybodaeth a chofnodion yn ymwneud â thir, yr amgylchedd neu dreftadaeth; llywodraethiant Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig; crwydraeth a chardota. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol[2] a Datganiad Ysgrifenedig[3] gerbron Senedd Cymru ar 28 Medi 2022 yn unol â Rheol Sefydlog 29 a 30 yn y drefn honno. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol diwygiedig[4] ar 25 Tachwedd 2022. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol[5] ar 30 Tachwedd 2022 mewn perthynas â sawl gwelliant gan Lywodraeth y DU a gyflwynwyd yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin.

[1] https://bills.parliament.uk/publications/50270/documents/3123
[2] lcm-ld15356-w.pdf (senedd.cymru)
[3] gen-ld15357-w.pdf (senedd.cymru)
[4] lcm-ld15495-w.pdf (senedd.cymru)
[5] slcm-ld15508-w.pdf (senedd.cymru)

Gosodwyd Datganiad Ysgrifenedig[6] ar 21 Mawrth ynghylch gwelliannau Llywodraeth y DU mewn perthynas â thrafodion rhithwir. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol[7] atodol pellach ar 27 Ebrill 2023 mewn perthynas â gwelliannau i Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol, a oedd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Yr un diwrnod gosodais Ddatganiad Ysgrifenedig[8] pellach mewn perthynas â gwelliannau i ddarpariaethau Rhan 9 Prynu Gorfodol a Gwerth Gobeithiol.

**Y gwelliannau perthnasol**

Mae’r gwelliant a gyflwynwyd yn mynd i’r afael ag iawndal prynu gorfodol drwy ddarparu pŵer galluogi i Weinidogion Cymru i geisio cyfarwyddydau i ddileu gwerth gobeithiol o iawndal prynu gorfodol ar gyfer caffael tir drwy Orchmynion Prynu Gorfodol a wnaed o dan Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (WDAA 1975).

Mae ‘gwerth gobeithiol’ yn cyfeirio at gynnydd yng ngwerth tir wrth ystyried pa ganiatâd cynllunio y gellid ei roi pe na bai'r cynllun prynu gorfodol yn mynd rhagddo. Mae'r gwelliannau yn cynnwys mewnosodiadau yn Rhan 1 o Atodlen 4 i Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975 (gweithdrefn ar gyfer caffael gorfodol o dan y Ddeddf honno) sy'n nodi'r weithdrefn y bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ei dilyn os ydynt yn gwneud cyfarwyddyd bod iawndal i'w asesu yn unol ag adran 14A o Ddeddf Digolllediad Tir 1961. Mae'r weithdrefn yn cynnwys paratoi datganiad o ymrwymiadau sy'n nodi bwriadau'r caffaeliad sy'n cynnwys darparu nifer penodol o unedau o dai fforddiadwy. Felly, mae cynnwys y pŵer hwn yn dod â manteision sylweddol posibl yng nghyd-destun adfywio a thai.

Mae'r gwelliannau a osodwyd hefyd yn ymestyn y pŵer i gyfarwyddydau gael eu ceisio i ddileu gwerth gobeithiol o iawndal prynu gorfodol ar gyfer Gorchmynion Prynu Gorfodol i'r rheini a wneir gan Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru o dan baragraff 27 o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

Mae'r gwelliannau a osodwyd hefyd yn newid y diffiniad o “uned o dai fforddiadwy” i sicrhau bod y diffiniad presennol o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 yn cael ei wneud yn gywir i fod yn gymwys yng Nghymru.

---

[6] Datganiad Ysgrifenedig: Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio – Gwelliannau ynghylch Trafodion Rhithwir (21 Mawrth 2023) | LLYW.CYMRU
[7] slcm-ld15802-w.pdf (senedd.cymru)
[8] Datganiad Ysgrifenedig: Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio – Gwelliannau Prynu Gorfodol – Gwerth Gobeithiol ac Iawndal (27 Ebrill 2023) | LLYW.CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fel y nodais yn fy Natganiadau Ysgrifenedig[9] dyddiedig 28 Medi 2022, 21 Mawrth 2023 a 27 Ebrill 2023 yn ymwneud â'r Bil, mae cymhwysedd Senedd Cymru yn gyfyngedig mewn perthynas â phrynu gorfodol mewn meysydd datganoledig, gan gynnwys tai a chynllunio defnydd tir. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod rhaid i unrhyw addasiadau arfaethedig i gyfraith prynu gorfodol, drwy gyfrwng deddfwriaeth sylfaenol, fod yn glir yng nghyd-destun newidiadau penodol i gyfraith cynllunio defnydd tir neu unrhyw fater arall nas cedwir yn ôl. Nid yw Senedd Cymru, felly, yn gallu addasu cyfraith prynu gorfodol yn gyffredinol neu er ei mwyn ei hun neu i gyflawni canlyniadau a gedwir yn ôl. Mae hyn yn atal Senedd Cymru rhag addasu'r rheolau cyffredinol ynghylch prynu gorfodol ac iawndal ar gyfer caffael gorfodol mewn deddfwriaeth megis Deddf Caffael Tir 1981 mewn perthynas â phob caffaeliad gorfodol yng Nghymru.

Bydd y ddarpariaeth yn ychwanegu agwedd ychwanegol at swyddogaethau presennol Gweinidogion Cymru yn eu rôl fel awdurdod cadarnhau. Felly, mae'r ddarpariaeth yn dod o dan Reol Sefydlog 30 ar gyfer darpariaethau a fydd yn addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru, ond nid oes angen Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol o dan Reol Sefydlog Rhif 29.

**<u>Rhesymau dros wneud y ddarpariaeth</u>**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella'r broses o ran prynu gorfodol er mwyn ei gwneud yn decach, ac yn fwy effeithlon ac eglur. Ein blaenoriaeth yw cael gwared ar rwystrau i bwerau prynu gorfodol gan awdurdodau lleol, ac annog mwy o ddefnydd ohonynt, drwy symleiddio a moderneiddio'r broses brynu gorfodol. Rydym o'r farn bod y gwelliannau yn welliant drwy ailgydbwyso'r sefyllfa rhwng yr awdurdod caffael a'r perchennog tir.

Rwyf o'r farn ei bod yn briodol i'r ddarpariaeth mewn perthynas â phrynu gorfodol fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru ac iddi gael ei chynnwys yn y Bil hwn.

Cyhoeddir y datganiad hwn yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau. Pe bai aelodau'n dymuno i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ar hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

[9] gen-ld15357-w.pdf (senedd.cymru) Datganiad Ysgrifenedig: Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio – Gwelliannau ynghylch Trafodion Rhithwir (21 Mawrth 2023) | LLYW.CYMRU Datganiad Ysgrifenedig: Y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio – Gwelliannau Prynu Gorfodol – Gwerth Gobeithiol ac Iawndal (27 Ebrill 2023) | LLYW.CYMRU

Y Pwyllgor Busnes
—
Business Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

14 Medi 2023

**Gweithdrefnau sydd eu hangen er mwyn craffu ar Offerynnau Statudol sy'n deillio o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023**

Annwyl Huw,

Mae'r Pwyllgor Busnes yn ystyried newidiadau sydd angen eu gwneud i'r gweithdrefnau craffu ar Offerynnau Statudol sy'n deillio o Ddeddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023.

Yn ein cyfarfod ar 12 Medi, cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddant yn ymgynghori â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch ein dull arfaethedig o ddiwygio Rheolau Sefydlog 21 a 27 at ddibenion cyflwyno gweithdrefn sifftio ar gyfer offerynnau statudol a wnaed o dan y Ddeddf honno. Rydym yn bwriadu i'r darpariaethau hyn ddisodli'r rhai a oedd yn gymwys mewn perthynas â sifftio o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020, nad oes eu hangen mwyach.

Ar yr un pryd â chynnig y newidiadau hyn i'r Senedd, rydym hefyd yn bwriadu cynnig cael gwared ar Reol Sefydlog 30B a gwneud newid i Reol Sefydlog 30C ar ôl i rai pwerau ddod i ben a chael eu diddymu mewn perthynas â gwneud offerynnau statudol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020. Byddem hefyd yn ddiolchgar o gael barn y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y cynigion hynny.

Amgaeaf ddadansoddiad o'r newidiadau arfaethedig i'w hystyried gennych, gan gynnwys y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn Atodiad A o'r ddogfen honno.

Cofiwch ei fod yn bapur preifat ac na ddylid ei gyhoeddi na'i ddosbarthu i bobl heblaw am aelodau'r pwyllgor.

Cofion gorau,

**Y Gwir Anrh. Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 10

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon